Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 23ain Ionawr, 2024 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH |
| **PWYNT CYSWLLT** | Annes Sion<br><br>cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Dyfrig Siencyn | Arweinydd y Cyngor |
| Nia Wyn Jeffreys | Dirprwy Arweinydd |
| Craig ab Iago | Aelod Cabinet Tai |
| Cynghorydd Beca Brown | Aelod Cabinet Addysg |
| Berwyn Parry Jones | Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg a YGC |
| Dafydd Meurig | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Dilwyn Morgan | Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Elin Walker Jones | Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Cyllid |
| Menna Trenholme | Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU | | | |
| 5 | COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWYD AR 19 RHAGFYR 2023 | | | 3 - 9 |
| 6 | CYLLIDEB REFENIW 2023/24 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 2023 | Cyng. Ioan Thomas | Ffion Madog Evans | 10 - 32 |
| 7 | TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION | Cyng. Ioan Thomas | Ffion Madog Evans | 33 - 40 |
| 8 | RHAGLEN GYFALAF 2023/34 - ADOYLGIAD DIWEDD TACHWEDD | Cyng. Ioan Thomas | Ffion Madog Evans | 41 - 53 |
| 9 | ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS ADDYSG | Cyng. Beca Brown | Gwern ap Rhisiart | 54 - 60 |
| 10 | ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS GYLLID | Cyng. Ioan Thomas | Dewi Aeron Morgan | 61 - 69 |
| 11 | BLAEN RAGLEN Y CABINET | Cllr. Dyfrig Siencyn | | 70 |

## Y CABINET DYDD MAWRTH, 19 RHAGFYR 2023

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig Siencyn, Nia Jeffreys, Beca Brown, Berwyn Parry Jones, Craig ab Iago, Dafydd Meurig, Elin Walker Jones a Ioan Thomas.

**Hefyd yn bresennol-**
Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Huw Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol), Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Evans (Pennaeth Cyfreithiol), Dewi Aeron Morgan (Pennaeth Cyllid) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Eitem 6: Daron Marged Owens (Uwch Swyddog Gweithredol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol).

Eitem 7: Bethan Richardson (Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd) a David Mark Lewis (Rheolwr Ynni a Gwasanaethau Masnachol)

Eitem 8: Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Adran Amgylchedd)

Eitem 9: Steffan Jones (Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC)

### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Menna Trenholme a Dilwyn Morgan.

Croesawyd yr Aelodau Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

### 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw fater brys.

### 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

### 5. COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 28 TACHWEDD 2023

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2023 fel rhai cywir.

## 6. GORCHYMYN DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS (GDMC) CAERNARFON, PWLLHELI A CRICIETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Uwch Swyddog Gweithredol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol

**PENDERFYNIAD**

a. **Cymeradwywyd ymgymryd â'r broses o ystyried cyflwyno Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC) newydd ar gyfer ardaloedd penodol yng Nghaernarfon, Criccieth a Phwllheli, yn unol â'r Gorchymyn Arfaethedig drafft a atodwyd yn Atodiad 1.**
b. **Awdurdodwyd Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant i ymgymryd â phroses ymgynghori am gyfnod o 28 diwrnod, gan ddychwelyd i'r Cabinet am benderfyniad ynghylch a ddylid cyflwyno GDMC yng Nghaernarfon, Pwllheli a Criccieth.**

**TRAFODAETH**

Eglurwyd bod Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 yn rhoi'r grym i Awdurdodau Lleol gyflwyno Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC) i ymdrin â niwsans neu broblemau penodol mewn mannau penodol. Cadarnhawyd bod yr heddlu wedi bod mewn cyswllt gyda'r Cyngor er mwyn ceisio cyflwyno GDMC mewn ardaloedd yng Nghaernarfon, Pwllheli a Chriccieth. Bwriedir i'r gorchmynion ymdrin â phroblemau penodol mewn ardaloedd penodol sy'n niweidiol i ansawdd bywyd. Esboniwyd bod ardaloedd arfaethedig GDMC wedi'u nodi oherwydd effaith yr ymddygiad ar y gymuned, busnesau ac ymwelwyr.

Manylwyd bod rhaid i'r Awdurdodau Lleol fod yn fodlon bod sail rhesymol dros gredu fod y gweithgareddau hyn mewn man cyhoeddus wedi cael, neu yn debygol o gael effaith andwyol ar ansawdd bywyd pobl yn y cyffiniau. Eglurwyd hefyd fod y gweithgareddau angen bod yn barhaus eu natur ac yn afresymol. Esboniwyd bod yr heddlu wedi darparu datganiadau effaith gan swyddogion a busnesau yn yr ardaloedd yma gan nodi tystiolaeth bod ymddygiad gwrthgymdeithasol gan unigolion ifanc ac oedolion ac yn cynnwys camweddau sylweddau, ymddygiad bygythiol a thrais. Manylwyd bod hyn yn gwneud i rai unigolion y gymuned osgoi mynd i fewn i fusnesau, ac eu bod yn osgoi defnyddio llochesi bysiau ac ati.

Cadarnhawyd bod y Cyngor wedi ymgynghori gydag Aelodau Lleol a'r cynghorau tref perthnasol. Sicrhawyd bod cefnogaeth lwyr i'r gorchmynion ynghyd â chefnogaeth gan Aelodau Seneddol Arfon a Dwyfor Meirionnydd. Esboniwyd bydd y Cyngor yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus o'r GDMC os byddent yn cael eu cymeradwyo, cyn cyflwyno adroddiad pellach i'r Cabinet pan yn amserol.

Cydnabuwyd bod angen ystyried opsiynau eraill cyn cyflwyno GDMC ac mae'r Cyngor wedi derbyn gwybodaeth gynhwysfawr gan yr heddlu o'u hymrwymiadau amrywiol ac mae'r Cyngor yn fodlon eu bod eisoes wedi defnyddio pob dull i fynd i'r afael ag atal yr ymddygiadau hyn.

Adroddwyd bod y cyfyngiadau dan ystyriaeth GDMC wedi eu datblygu'n benodol i ymdrin â'r mathau o ymddygiad sy'n achosi'r problemau mwyaf, ac ystyriwyd y cyfyngiadau canlynol yn addas:

- Ni chaiff person ddilyn cwrs o ymddygiad sydd yn achosi, neu sydd yn rhesymol canfod ei fod yn achosi aflonyddwch, braw, niwsans neu drallod.
- Ni chaiff person yfed alcohol, nac unrhyw beth y mae Person Awdurdodedig yn rhesymol gredu i fod yn alcohol neu gynhwysydd i ddal alcohol, os yw Person Awdurdodedig yn gofyn i'r person stopio ag yfed neu ildio'r alcohol neu gynhwysydd.
- Ni chaiff person loetran mewn cyflwr o feddwdod o ganlyniad i gymryd alcohol neu gyffuriau. Os yw Person Awdurdodedig yn gofyn i'r person ymadael â'r ardal mewn amgylchiadau lle bo'r person wedi tramgwyddo'r cyfyngiad yma, rhaid i'r person ymadael ar unwaith.

Pwysleisiwyd mai dim ond pan fydd pobl sy'n yfed alcohol yn achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol neu'n debygol o achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol y bydd swyddogion yn gorfodi'r gwaharddiad hwn. Addysgwyd nad yw'n drosedd i yfed alcohol mewn ardal GDMC ond ei fod yn drosedd i fethu â chydymffurfio â chais i stopio yfed neu ildio alcohol. Cadarnhawyd na fydd y gorchymyn yn effeithio digwyddiadau megis yr Ŵyl Fwyd yng Nghaernarfon, oni bai fod unigolion yn achosi gwrthgymdeithasol wrth yfed.

Cadarnhawyd bod Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod gofynion cyfreithiol i baratoi asesiad effaith i'r GDMC a nodwyd nad oes unrhyw reswm dros beidio â pharhau gyda'r proses yn deillio o asesiad effaith y Cyngor.

## 7. CYNLLUN ARGYFWNG HINSAWDD A NATUR: ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022/23 CYNGOR GWYNEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dyfrig Siencyn.

**PENDERFYNIAD**

**Ystyriwyd a chymeradwywyd Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur: Adroddiad Blynyddol 2022/23 Cyngor Gwynedd.**

**TRAFODAETH**

Atgoffwyd yr Aelodau bod Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur wedi cael ei fabwysiadu gan y Cyngor ar 8 Mawrth 2023 yn dilyn cyfarfod o'r Cabinet.

Tynnwyd sylw bod y cynllun yn cynnwys dau gam. Manylwyd mai'r cam cyntaf oedd gweithredu prosiectau'r Cyngor er mwyn lleihau'r defnydd o ynni a lleihau

allyriadau carbon y Cyngor ac mai'r ail gam fyddai edrych ar yr effaith ehangach ar y sir gan ystyried sut gall y Cyngor helpu cymunedau a sut gellir ymateb fel sir i effaith newid hinsawdd.

Pwysleisiwyd bod y Cyngor wedi bod yn gweithio ar fesurau i leihau allyriadau carbon ers dros 10 mlynedd a wedi llwyddo i leihau cyfanswm allyriadau carbon 43%. Manylwyd bod y Cyngor wedi llwyddo i wneud hyn drwy weithredu ym mhob maes gan gynnwys newidiadau i oleuadau stryd sydd wedi lleihau 76% o'r allyriadau carbon cysylltiedig, a newidiadau i'r fflyd gan leihau allyriadau carbon cysylltiedig 23%.

Esboniwyd bod y newidiadau mae'r Cyngor yn ei wneud yn weithredol tuag at adfer yr argyfwng newid hinsawdd ac yn cyfrannu at nod y Cyngor o fod yn garbon sero net ac ecolegol gadarnhaol erbyn 2030. Nodwyd hefyd bod y newidiadau hyn yn arwain at arbedion ariannol i'r Cyngor. Ymhelaethwyd bod y Cyngor yn gweld buddion ariannol wrth daclo argyfwng hinsawdd a natur, gan arbed oddeutu £15miliwn ers 2010. Pwysleisiwyd y golygai hyn y buasai angen gwneud mwy o doriadau yn sgil sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor os na fuasai'r gwaith ar yr argyfwng newid hinsawdd a natur wedi cael ei gyflawni, gan y buasai yna £4.3miliwn o gostau ychwanegol i'w cyfarch. Cydnabuwyd bod ystyriaethau newydd i'w hystyried erbyn hyn megis heriau maes caffael yn ogystal â'r ffaith bod mwy o weithlu'r cyngor yn gweithio o adref.

Cyfeiriwyd at amryw o brosiectau o fewn saith prif ffrwd gwaith y cynllun sef: Adeiladau ac ynni, symud a thrafnidiaeth, gwastraff, llywodraethu, caffael, defnydd tir ac ecoleg. Tynnwyd sylw at brosiect paneli solar sydd eisoes ar y gweill gydag £2.8miliwn wedi ei fuddsoddi mewn paneli solar i'w rhoi ar adeiladau'r Cyngor er mwyn arbed arian yn y dyfodol. Esboniwyd hefyd bod fflyd y Cyngor yn cael ei uwchraddio yn y dyfodol i fod yn gerbydau trydan er mwyn lleihau'r allyriadau carbon mae'r cerbydau presennol yn ei ryddhau.

Mynegwyd pryder am y dull o gyfrifo allyriadau carbon yn genedlaethol. Esboniwyd bod prynu nwyddau lleol yn cael ei gyfrifo yn yr un modd a phrynu nwyddau o ledled y wlad, oherwydd bod y system yn ffocysu ar wariant, er bod gwahaniaethau mawr yn y gwir allyriadau carbon. Nodwyd bod modd i hyn effeithio ar economi leol mewn ardaloedd gan nad oes anogaeth i brynu'n lleol. Pryderwyd na fydd modd cyrraedd targedau o fod yn garbon niwtral erbyn 2030 os na fydd y dull cyfrifo hwn yn cael ei ddiwygio. Cadarnhawyd bod gwaith yn cael ei wneud yn genedlaethol er mwyn cywiro'r gwall hwn er mwyn cynorthwyo aelodau lleol i gyrraedd eu nod.

Diolchwyd i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau am eu sylwadau ar yr adroddiad blynyddol, sydd wedi cael eu cymryd i'w ystyriaeth a'u gweithredu.

## 8. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET AMGYLCHEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dafydd Meurig.

**PENDERFYNIAD**

**Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.**

**TRAFODAETH**

Atgoffwyd yr aelodau bod yr Adran yn arwain ar bump o brosiectau Cynllun y Cyngor sef ‘Rheolaeth ail gartrefu a llety gwyliau tymor byr’, ‘Cynllun Datblygu Lleol Newydd’, ‘Gwastraff ac Ailgylchu’, ‘Teithiau Llesol’ a ‘Trafnidiaeth Gyhoeddus’. Tynnwyd sylw bod dau o’r prosiectau hyn yn ymwneud â’r maes trafnidiaeth a bydd Pennaeth Cynorthwyol newydd yn cychwyn gyda’r Adran ym mis Ionawr a fydd yn allweddol i gynorthwyo gyda’r gwaith i symud y blaenoriaethau hyn yn eu blaenau.

Eglurwyd bod yr adran yn arwain ar y gwaith o baratoi cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd, mewn ymdrech i gael gwell rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr. Nodwyd byddai hyn yn galluogi’r Cyngor i fynnu bod perchnogion eiddo yn yr Ardal Cynllunio yn derbyn hawl cynllunio cyn newid defnydd eu heiddo yn ail gartref neu lety gwyliau tymor byr. Cadarnhawyd bod cyfnod ymgynghori cyhoeddus wedi ei gynnal am gyfnod o 6 wythnos a bod ymateb sylweddol i'r ymgynghoriad wedi dod i law. Nodwyd bod swyddogion yn parhau i ddadansoddi’r holl sylwadau a rhoi ystyriaeth deilwng i’r ymatebion a dderbyniwyd. Sicrhawyd bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i’r Cabinet am benderfyniad yn ystod misoedd cynnar 2024, yn dilyn y broses o ddadansoddi sylwadau.

Cadarnhawyd bod yr Adran yn cyflwyno Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd er mwyn cyfarch anghenion tai cyflogaeth, cymdeithasol ac amgylcheddol trigolion y sir dros yr 15 mlynedd nesaf. Pwysleisiwyd bod Gweithgor Polisi Cynllunio wedi ei sefydlu er mwyn cefnogi’r broses o greu a chynnal y Cynllun hwn a'u bod hefyd wedi ystyried Cytundeb Cyflawni drafft y Cynllun. Cadarnhawyd bod ymgynghoriad cyhoeddus wedi cael ei gynnal am gyfnod o 6 wythnos ar y Cytundeb Cyflawni ac mae swyddogion yn ystyried yr ymatebion ar hyn o bryd. Rhagwelwyd bydd adroddiad ar y mater yn cael ei gyflwyno i’r Cabinet yn fuan cyn mynd i’r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2024.

Adroddwyd bod gwaith trawsnewid sylweddol yn parhau i ddigwydd ym maes gwastraff ac ailgylchu. Cadarnhawyd bod yr adran yn gweithio i anelu at darged Llywodraeth Cymru o ailgylchu 70% o holl wastraff erbyn 2025. Eglurwyd bod y Cyngor yn derbyn incwm am ddeunydd ailgylchu ond cadarnhawyd bod y ffigyrau hyn wedi lleihau. Adroddwyd bod y Cyngor wedi bod yn derbyn £400 y tunnell yn y gorffennol ond roedd y ffigyrau hyn wedi lleihau i £200 y tunnell erbyn mis Mai eleni. Nodwyd bod y ffigyrau diweddaraf yn nodi bydd y Cyngor yn derbyn £20 y tunnell am nwyddau ailgylchu a gesglir. Cydnabuwyd bod yr Adran wedi derbyn nifer fawr o gwynion o fewn y maes gwastraff yn ddiweddar wrth iddo symud o dan reolaeth yr Adran hon. Pwysleisiwyd bod nifer o’r heriau wedi eu datrys erbyn hyn ac bod niferoedd y cwynion wedi gostwng.

Atgoffwyd yr Aelodau bod y Cyngor wedi sicrhau £1.2miliwn o gyllid Teithiau Llesol gan Lywodraeth Cymru eleni ar gyfer gwedd gyntaf Llwybr Ffordd Penrhos, ger Bangor. Nodwyd bod y gwaith paratoadol wedi cael ei gwblhau ac

mae gwaith ar y ddaear yn cychwyn o gyffordd Coed Mawr i gyffordd Coed y Maes. Mynegwyd pryder bod gwireddu cynlluniau teithiau llesol yn ddibynnol iawn ar sicrhau cefnogaeth ariannol gan y Llywodraeth, gan osod gofynion penodol wrth gyflwyno ceisiadau. Pwysleisiwyd bod swyddogion yn trafod gyda Thrafnidiaeth Cymru er mwyn ceisio canfod dulliau o gryfhau cynlluniau er mwyn ceisio sicrhau cyllid i'r dyfodol, gan fod nifer o'r ceisiadau yn ffafrio ardaloedd mwy trefol a phoblog. Nodwyd her bellach wrth nodi bod ffigyrau'r grantiau yn gallu bod yn isel iawn, gan nodi os byddai'r Cyngor yn derbyn yr un faint o grantiau yn flynyddol â'r ffigwr eleni, byddai'n cymryd 200 mlynedd i gwblhau holl gynlluniau'r prosiect yn llawn.

Diweddarwyd bod gwasanaethau bws Sherpa'r Wyddfa yn parhau i ennyn cydnabyddiaeth allanol. Ymfalchïwyd bod y gwasanaeth wedi cyrraedd rhestr fer sawl gwobr cludiant dros y misoedd diwethaf gan ennill gwobr arian 'Bysiau Hamdden' yng Ngwobrau Bysiau'r Deyrnas Gyfunol, gan ei fod yn enghraifft dda o gyfuno anghenion pobl leol ac anghenion ymwelwyr yr ardal.

Cadarnhawyd bydd bysiau trydan y T22 yn cynnig gwasanaeth pwysig ar hyd llwybr rhwng Blaenau Ffestiniog, Porthmadog a Chaernarfon yn cychwyn ar 12 Chwefror 2024. Eglurwyd mai dyma'r gwasanaeth cyntaf ar y prif rwydwaith y Sir ble bydd bysiau trydan yn darparu'r gwasanaeth pob awr.

Esboniwyd bod system ceisiadau trwyddedu cerbydau tacsis wedi newid i fod ar lein yn ddiweddar er mwyn eu prosesu yn gyflymach. Cadarnhawyd bod llawer mwy o geisiadau yn cael eu cyflwyno yn ddiweddar ond gan fod y system yn newydd i lawer, mae oedi wrth i geisiadau cael eu cyflwyno yn anghyflawn. Nodwyd bod swyddogion yn cynorthwyo ymgeiswyr gyda'u ceisiadau a nodwyd bod ceisiadau yn cael eu delio a hwy o fewn 8 diwrnod yn ôl y ffigyrau diweddaraf.

Tynnwyd sylw at Wasanaeth Bwyd a Diogelwch yr Adran sy'n sicrhau fod bwyd a diod sy'n cael ei werthu i'w fwyta a'i yfed, yn ddiogel i'r cyhoedd ac yn cydymffurfio gyda gofynion cenedlaethol. Nodwyd bod 2,064 o fusnesau bwyd perthnasol o fewn Gwynedd a bod 99% o'r rhain yn cyrraedd safon hylendid bwyd boddhaol neu uwch. Cydnabuwyd bod 26 lleoliad ddim yn cwrdd â'r safon ond mae'r Gwasanaeth yn ail-ymweld pob eiddo sy'n derbyn sgôr o 2 neu is o fewn 3 mis o'r archwiliad gwreiddiol er mwyn sicrhau bod safonau yn gwella.

Adroddwyd bod nifer o wasanaethau'r Adran wedi lleihau eu amseroedd prosesu gan gyfeirio'n benodol at y Gwasanaeth Cynllunio a oedd yn cymryd 84 diwrnod ar gyfartaledd i benderfynu ar geisiadau (o'i gymharu â 92 diwrnod yn 2022/23 a 103 diwrnod yn 2021/22), a'r tîm Pridiannau Tir sy'n prosesu ceisiadau o fewn 31 diwrnod erbyn hyn (o'i gymharu â 38 diwrnod yn2022/23).

Rhagwelwyd bydd yr Adran yn gorwario £511,000 erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol. Nodwyd bod nifer o resymau pam fod yr adran yn gorwario ond bod swyddogion yn mynd ati i ddatrys y problemau er mwyn ceisio sicrhau bod targed cynlluniau arbedion ar gyfer 2023/24 yn cael eu gwireddu.

## 9. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS PRIFFYRDD, PEIRIANNEG AC YGC

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Berwyn Parry Jones.

**PENDERFYNIAD**

**Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.**

**TRAFODAETH**

Atgoffwyd yr Aelodau bod yr Adran yn arwain ar dri phrosiect sy'n rhan o Gynllun y Cyngor sef 'Cymunedau Glân a Thaclus', 'Gweithredu ar Risgiau Llifogydd' ac ' Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y Sir'.

Manylwyd bod yr adran wedi uno tri gwasanaeth o dan un rheolwr ymysg y maes cymunedau glan a thaclus er mwyn creu gwasanaeth newydd o dan yr enw 'Edrychiad Stryd'. Cadarnhawyd bod strategaeth ddrafft wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau yn ddiweddar a bydd y strategaeth yn mynd allan am ymgynghoriad cyhoeddus yn y gwanwyn, yn dilyn eu sylwadau.

Cydnabuwyd bod llithriad wedi bod wrth ymgeisio i gwblhau gwaith o fewn y maes ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y sir ond gobeithir bydd y gwaith yn cael ei gyflawni yn llawn yn y dyfodol. Pwysleisiwyd bod diweddariad  manwl ar brosiectau Cynllun y Cyngor o fewn Atodiad 1.

Eglurwyd bod Llawlyfr Cynnal Priffyrdd wedi cael ei fabwysiadu yn ddiweddar ac mae'r Adran yn rhoi blaenoriaeth i greu rhaglen 3 blynedd o waith ail wynebu ffyrdd drwy'r sir ar sail cyflwr. Cadarnhawyd bydd y rhaglen hon yn cael ei rannu gydag Aelodau er mwyn iddynt fod yn ymwybodol pryd fydd gwaith yn cymryd lle o fewn eu wardiau.

Nodwyd bod yr adran wedi cydweithio'n llwyddiannus gyda'r Adran Amgylchedd ar brosiect ymylon ffordd. Esboniwyd bod y prosiect yn helpu ein byd natur, yn enwedig peillwyr, gan gynyddu bioamrywiaeth.

Cadarnhawyd bod yr Adran wedi archebu 43 o gerbydau trydan er mwyn symud i ffwrdd o ddefnyddio tanwydd ffosil, ac i gyd-fynd â Chynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur y Cyngor. Nodwyd y disgwylir i'r cerbydau hyn gyrraedd erbyn diwedd y flwyddyn ariannol a gobeithir bydd 16 pwynt gwefru ar gael i fflyd y Cyngor ar draws y Sir. Esboniwyd bod yr Adran wedi profi heriau wrth gysylltu pwyntiau gwefru i'r grid cenedlaethol ond mae'r Adran yn gweithio gyda darparwyr i sicrhau na fydd hyn yn broblem yn y dyfodol.

Esboniwyd bod yr Adran wedi bod yn llwyddiannus mewn cais ariannol drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) er mwyn ymestyn y ddarpariaeth bresennol o systemau teledu cylch cyfyng mewn mannau cyhoeddus ym Mangor, Caernarfon a Phwllheli. Manylwyd bydd dogfennau tendro yn cael eu darparu yn y dyfodol agos.

Adroddwyd ar fwriad yr adran i dreialu drysau talu gyda thechnoleg di-gyffwrdd i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 05 Hydref 2023. Manylwyd bod bid ariannol i gyflwyno drysau mewn 5 safle i'r perwyl hyn wedi ei gyflwyno. Yn yr un maes, cadarnhawyd bod yr Adran yn rheoli Cynllun Grant Cyfleusterau Cyhoeddus sy'n caniatáu i aelodau'r cyhoedd ddefnyddio toiledau mewn amryw o sefydliadau lleol. Nodwyd bod modd defnyddio'r toiledau am ddim ac nid oes angen prynu dim yn y lleoliad. Eglurwyd bod y lleoliadau yn gallu derbyn grant o hyd at £500 i fod yn rhan o'r cynllun a bod rhaid iddynt osod sticer yn ffenest y lleoliad i ddangos ei bod yn rhan o'r cynllun.

Cadarnhawyd bod y gwaith o ddiweddaru Cynllun Busnes Ymgynghoriaeth Gwynedd yn parhau er mwyn ei ymgorffori i Gynllun yr adran gyfan. Nodwyd mai'r bwriad yw lansio'r cynllun newydd ym mis Ebrill 2024 ond cydnabuwyd bydd heriau yn codi wrth i'r adran ymgeisio am gymaint o waith â phosib er mwyn creu incwm.

Tybiwyd bydd yr adran wedi gorwario £990,000 yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol, ond nodwyd bod hyn yn llai o orwariant na'r flwyddyn ddiwethaf, ble roedd gorwariant o £1.5 miliwn. Esboniwyd bod y gorwariant yn gyfuniad o ddiffyg incwm mewn rhai meysydd yn ogystal â gorwariant hanesyddol ar rhai cyllidebau. Pwysleisiwyd bod gwaith yn mynd rhagddo i leihau'r diffyg yma. Er hyn, rhybuddiwyd fod modd i'r sefyllfa yma waethygu yn ddibynnol ar y gaeaf gan nad oes cronfeydd corfforaethol ar gael i dalu am unrhyw wariant ychwanegol megis graeanu ffyrdd.

Ymfalchïwyd bod swyddogion wedi derbyn cydnabyddiaeth am eu gwaith yn yr adran llifogydd Ymgynghoriaeth Gwynedd yn ddiweddar. Manylwyd bod cynllun Gwarchod Llifogydd Felinheli wedi defnyddio technoleg sy'n rhybuddio gwirfoddolwyr i wybod pryd i gau y giatiau a osodwyd ger y dŵr yn Felinheli, er mwyn dal y dwr yn ôl. Esboniwyd bod adran Technoleg Gwybodaeth y Cyngor wedi sefydlu system i dderbyn a chofnodi'r data o'r synhwyrydd llanw ac yn gwneud y defnydd mwyaf o dechnoleg o fewn y maes llifogydd. Cadarnhawyd bod y prosiect hwn wedi ennill gwobr cenedlaethol sef Defnydd Gorau o Dechnoleg: Casglu Data Clyfar ar gyfer Rheoli Asedau yn Ngwobrau TechFest 2023 yn nghystadlaethau NCE (New Civil Engineer).

Dechreuodd y cyfarfod am 1pm a daeth i ben am 2:10pm

**CADEIRYDD**

**CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| | Cyllideb Refeniw 2023/24 – Adolygiad Diwedd Tachwedd 2023 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid |
| **Swyddog perthnasol:** | Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 23 Ionawr 2024 |

**1. Penderfyniad a geisir**

**1.1** Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd 2023 o’r Gyllideb Refeniw, ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth.

**1.2** Nodi bod rhagolygon gorwariant sylweddol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Adran Plant a Theuluoedd, Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC eleni.

**1.3** Cymeradwyo trosglwyddiad o £4,241k o danwariant ar gyllidebau corfforaethol i Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol y Cyngor.

**2. Y rheswm pam fod angen i’r Cabinet wneud y penderfyniad**

**2.1** Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau’r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

**3. Cyflwyniad a Rhesymeg**

**Cefndir / Cyflwyniad**

**3.1** Cyflwynir yr adroddiad ar yr adolygiad diweddaraf diwedd Tachwedd o gyllideb refeniw'r Cyngor am 2023/24, ac amlinellir grynhoad o’r sefyllfa fesul Adran yn **Atodiad 1**. Mae’r rhagolygon presennol yn awgrymu y bydd pob un o’r deg adran yn gorwario erbyn diwedd y flwyddyn. Rhagwelir gorwariant sylweddol ar gyfer yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Adran Plant a Theuluoedd, Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC.

**3.2** Yn **Atodiad 2,** rhoddir manylion pellach yn ymwneud â’r prif faterion a’r penawdau cyllideb ble rhagwelir gwahaniaethau sylweddol, ynghyd ag argymhellion penodol lle’n briodol.

## 4. Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad

### Sefyllfa Arbedion

**4.1** Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi adrodd ar risgiau i gyflawni arbedion, oedd amlycaf yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ac yn y maes Gwastraff. Yn dilyn adolygiad diweddar o'r arbedion nad oedd yn cael eu gwireddu, bu i werth £2 filiwn o gynlluniau arbedion gael eu dileu. O ran y cynlluniau sydd yn weddill, mae yna risgiau yn parhau o ran gwireddu rhai o'r cynlluniau.

**4.2** Y sefyllfa ddiweddaraf o ran yr arbedion yw fod £39.1 miliwn, sef 96% o'r cynlluniau arbedion diwygiedig ers 2015 bellach wedi eu gwireddu.

## 5. Adrannau'r Cyngor

### 5.1 Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Mae'r rhagolygon diweddaraf yn awgrymu bydd £5.4 miliwn o orwariant, sydd yn ganlyniad i gyfuniad o nifer o ffactorau gan gynnwys nifer o achosion newydd a chostus llety cefnogol yn y gwasanaeth anabledd dysgu. Yn y maes Gofal Cartref, mae costau staffio uwch a lefelau salwch a chyfraddau oriau di-gyswllt yn uchel, tra fod ffioedd uwch gan ddarparwyr preifat yng ngwasanaethau Pobl Hŷn.

Yn wyneb y rhagolygon gorwariant eithriadol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, nodir fod y gwaith a gafodd ei gomisiynu gan y Prif Weithredwr, bellach ar y gweill i gael darlun manwl cymhlethdod gwariant gofal oedolion, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r materion a chreu rhaglen glir i ymateb. Mae'r gwaith yn cael ei arwain gan Gyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol.

### 5.2 Adran Plant a Theuluoedd

Sefyllfa ariannol yr adran wedi gwaethygu'n sylweddol ers adolygiad diwedd Awst, yn dilyn cynnydd costau oherwydd cymhlethdodau pecynnau all-sirol a ddarperir. Erbyn hyn, rhagwelir gorwariant o £1.3m gan yr adran erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

### 5.3 Adran Addysg

Y tueddiad o bwysau cynyddol ar y gyllideb tacsis a bysus ysgolion yn dod yn fwy amlwg eleni, gyda gorwariant o £1.5m yn cael ei ragweld. Mae'r maes cludiant eisoes yn destun adolygiad strategol i geisio rheoli'r cynnydd yn y gwariant ac awgrymir fod gwaith yn parhau fel bod modd ceisio lleihau y gorwariant a manteisio ar gyfleoedd effeithlonrwydd.

Mae cyfuniad o danwariant mewn meysydd eraill ynghyd â defnydd o gronfeydd wrth gefn yn lleihau'r gorwariant adrannol a adroddir.

**5.4 Byw'n Iach**

Dros y blynyddoedd diwethaf bu i effaith Covid amharu ar incwm Cwmni Byw'n Iach. Bu i Lywodraeth Cymru eu digolledu am y golled yn 2020/21 a 2021/22 o'u cronfa caledi. Yn 2022/23 rhoddodd y Cyngor £550k o gefnogaeth ariannol i Byw'n Iach uwchlaw taliad cytundebol y gontract ddarparu, er mwyn galluogi Byw'n Iach i gynnal eu gwasanaethau. Mae'r gefnogaeth ariannol yn parhau eleni a'r swm gofynnol wedi lleihau ymhellach i £350k.

**5.5 Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC**

Rhagwelir gorwariant o £780k gan yr adran, gwelwyd leihad yn y gwaith sydd yn cael ei gomisiynu gan asiantaethau allanol sydd yn cael effaith negyddol ar incwm gwasanaethau priffyrdd. Yn bwrdeistrefol, mae cyfuniad o ffactorau, gan gynnwys pwysau ychwanegol ar gyllidebau glanhau strydoedd a glanhau toiledau cyhoeddus. Gwelir colledion incwm cynnal tiroedd a thoiledau cyhoeddus, ond ceir incwm uwch gan y gwasanaethau profedigaeth sydd yn lleihau'r gorwariant a adroddir.

**5.6 Adran Amgylchedd**

Y tueddiad blynyddol o orwariant yn y maes casglu gwastraff ac ailgylchu yn parhau. Cylchdeithiau ychwanegol wedi arwain at orwariant ar gostau cyflogaeth a chostau fflyd. Lefelau salwch a goramser hefyd yn broblemus, tra fod na gostau ychwanegol o ran hurio cerbydau.

**5.7 Tai ac Eiddo**

Y tueddiad o bwysau sylweddol ar wasanaethau llety dros dro digartrefedd yn parhau i fod yn ddwys iawn, eleni dyrannwyd £3m o bremiwm treth cyngor ynghyd â dyraniad un-tro £1.2m o ddarpariaeth covid corfforaethol i gyfarch y costau ychwanegol.

**5.8 Corfforaethol**

Tanwariant ar gorfforaethol o ganlyniad i ragdybiaethau darbodus wrth osod cyllideb 2023/24 a lleihad yn y niferoedd sydd wedi hawlio gostyngiad treth cyngor o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Effaith y polisi rheolaeth trysorlys presennol yn golygu fod modd osgoi benthyca yn allanol ac felly'r costau cyfalaf cysylltiedig. Tanwariant ar gyllidebau eraill yn cynorthwyo i leddfu'r pwysau ychwanegol o ran y cynnydd cenedlaethol i gyflogau gweithwyr Llywodraeth Leol a gafodd ei gadarnhau yn Nhachwedd.

**6. Casgliad**

**6.1** Rhagwelir y bydd holl adrannau'r Cyngor yn gorwario erbyn diwedd y flwyddyn gyda gorwariant sylweddol mewn rhai meysydd. Felly, bydd rhaid gwneud defnydd o gronfeydd wrth gefn y Cyngor i gyllido'r blwch ariannol o £8.1m a ragwelir am 2023/24. Mae hyn yn welliant o'r rhagolygon o fwlch ariannol o £9.1m oedd yn cael ei ragweld yn yr adolygiad diwedd Awst.

**6.2** Er ei bod hi'n gynamserol i drosglwyddo arian o gronfeydd nes bydd y sefyllfa ariannol yn derfynol ar ddiwedd y flwyddyn, argymhellir mai'r drefn bryd hynny o ran defnyddio'r cronfeydd i gyllido'r bwlch ariannol fydd defnyddio:
- yn gyntaf, defnyddio £3,800k o gronfa trefniadau adfer yn sgil Covid
- gyda'r gweddill i'w gyllido o gronfa strategaeth ariannol y Cyngor.

**7. Camau nesaf ac amserlen**

**7.1** Gweithredu ar yr argymhellion gerbron a chyflwyno adroddiad dilynol i'r Cabinet yn ystod Mis Mai ar sefyllfa diwedd y flwyddyn ariannol.

**8. Sylwadau Swyddogion Statudol**

**8.1 Prif Swyddog Cyllid**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

**8.2 Swyddog Monitro**
Dim sylwadau i'w hychwanegu os safbwynt priodoldeb.

**Atodiadau:**

Atodiad 1 - Crynhoad o sefyllfa net cyllidebau'r adrannau

Atodiad 2 - Manylion y cyllidebau a'r gwahaniaethau sylweddol

## Cyllideb Refeniw 2023/24 - Crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran

| | Adolygiad Diwedd Tachwedd | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb Arfaethedig 2023/24 £'000 | Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2023/24 £ '000 | Addasiadau a Argymhellir £'000 | Amcan Gor/ (Tan) Wariant Addasedig 2023/24 £ '000 | *Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Awst 2023/24* £ '000 |
| **Oedolion, Iechyd a Llesiant** | 73,536 | 5,381 | 0 | 5,381 | 6,578 |
| **Plant a Theuluoedd** | 21,833 | 1,262 | 0 | 1,262 | (35) |
| **Addysg** | 110,266 | 77 | 0 | 77 | 757 |
| **Economi a Chymuned** | 6,224 | 59 | 0 | 59 | 78 |
| **Priffyrdd, Peirianneg ac YGC** | 17,767 | 780 | 0 | 780 | 998 |
| **Amgylchedd** | 18,689 | 338 | 0 | 338 | 511 |
| **Tai ac Eiddo** | 11,518 | 67 | 0 | 67 | 61 |
| **Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol** | 2,608 | 41 | 0 | 41 | 37 |
| **Cefnogaeth Gorfforaethol** | 7,715 | 22 | 0 | 22 | 62 |
| **Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)** | 7,874 | 70 | 0 | 70 | 102 |
| **Cyllidebau Corfforaethol** *(Gwahaniaethau yn unig)* | * | (4,241) | 4,241 | 0 | 0 |
| **Cyfansymiau (net)** | 285,904 | 3,856 | 4,241 | 8,097 | 9,149 |

**CYLLIDEB REFENIW 2023/24 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD**

| Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | Amcan Cyllideb 2023/24 | Amcan Sefyllfa 2023/24 | Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2023/24 | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2023/24 | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Awst 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | |
| Pobl Hŷn | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio - Cartrefi | 21,114 | 21,248 | 134 | | 134 | 1,000 |
| Gofal Cartref | 9,020 | 9,470 | 450 | | 450 | (244) |
| Eraill | 859 | 1,244 | 385 | | 385 | 692 |
| | 30,993 | 31,962 | 969 | 0 | 969 | 1,448 |
| Anabledd Corff | 3,174 | 2,763 | (411) | | (411) | (340) |
| Anabledd Dysgu | 26,638 | 28,985 | 2,347 | | 2,347 | 2,761 |
| Iechyd Meddwl | 4,442 | 4,734 | 292 | | 292 | 336 |
| Eraill (Oedolion) | 3,700 | 3,884 | 184 | | 184 | 80 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion** | **68,947** | **72,328** | **3,381** | **0** | **3,381** | **4,285** |
| **Gwasanaethau Darparu (dangos cyllideb net)** | | | | | | |
| Gofal Preswyl | 353 | 489 | 136 | | 136 | 285 |
| Gofal Dydd | 4 | (116) | (120) | | (120) | (113) |
| Gofal Cartref | 408 | 2,143 | 1,735 | | 1,735 | 1,679 |
| Eraill | 9 | 19 | 10 | | 10 | 24 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Darparu** | **774** | **2,535** | **1,761** | **0** | **1,761** | **1,875** |

**CYLLIDEB REFENIW 2023/24 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD**

| **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Amcan Cyllideb 2023/24 | Amcan Sefyllfa 2023/24 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2023/24** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2023/24** | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Awst 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Eraill** | | | | | | |
| Canolog Adrannol *(gan gynnwys arbedion yr Adran)* | 3,815 | 4,054 | 239 | | 239 | 418 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Eraill** | **3,815** | **4,054** | **239** | **0** | **239** | **418** |
| **Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant** | **73,536** | **78,917** | **5,381** | **0** | **5,381** | **6,578** |

## Oedolion, Iechyd a Llesiant

**Gwasanaethau Pobl Hŷn** - ym mhreswyl a nyrsio costau ffioedd uwch gan ddarparwyr preifat yn parhau ond gweithredu trefniadau cyfreithiol yn ymwneud â thaliadau gohiriedig dyledus ar gyfer preswylwyr, gan gynnwys dyledion hanesyddol, yn lleihau'r gorwariant a adroddir. Ymhellach i hyn, cynnydd yn y defnydd o welyau cartrefi mewnol yn cael effaith ffafriol ar gyfraniadau gan gleientau. Cynnydd yn y pwysau ar gyllideb gofal cartref wrth symud i'r model darparu newydd. Yn 'Eraill' gorwariant o £532k ar daliadau uniongyrchol.

**Gwasanaethau Anabledd Corff** - llai o alw am ofal cartref sydd yn cael ei wrthbwyso gan bwysau ar daliadau uniongyrchol.

**Gwasanaethau Anabledd Dysgu** - pwysau cynyddol a nifer o achosion newydd a chostus llety cefnogol yn gyfrifol am £2m o'r gorwariant, pwysau hefyd i'w weld ar breswyl a nyrsio, taliadau uniongyrchol a chostau tacsis ar gyfer gwasanaethau dydd. Y gorwariant yn cael ei leihau gan danwariant ar gynlluniau cefnogol.

**Gwasanaethau Iechyd Meddwl** - pwysau cynyddol ar preswyl a nyrsio gyda nifer o achosion newydd dwys ynghyd â mwy o alw am lety cefnogol.

**Gwasanaethau Darparu** - gostyngiad yn y gorwariant a adroddir ar ofal preswyl o ganlyniad i leihad yn y defnydd o staff asiantaeth, yn dilyn ymgyrch recriwtio lwyddiannus diweddar. Yng ngofal cartref, costau staffio uwch, gyda lefelau salwch a chyfraddau oriau di-gyswllt yn uchel. Y ddarpariaeth Gofal Dydd wedi ei effeithio ac wedi ei leihau dros y blynyddoedd diwethaf, felly yn tanwario.

**Gwasanaethau Canolog Adrannol** - derbyniad grantiau ac incwm i gyllido gwariant craidd yn lleihau effaith swyddi uwchlaw'r strwythur a diffyg gwireddu arbedion.

**Arbedion** - yn dilyn anallu yr adran i wireddu cynlluniau arbedion mae gwerth £1,488k o arbedion eisoes wedi eu dileu eleni. Mae'r gorwariant adrannol o £5.4m a ragwelir yn dilyn dileu yr arbedion.

Yn wyneb y rhagolygon gorwariant eithriadol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, nodir fod y Prif Weithredwr eisoes wedi comisiynu gwaith i egluro manylder cymhleth yn y darlun yng ngofal Oedolion, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o’r materion a rhaglen glir i ymateb. Mae'r gwaith wrthi'n cael sylw ac yn cael ei arwain gan Gyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol gyda bwriad i adrodd ar y canfyddiadau yn fuan.

**CYLLIDEB REFENIW 2023/24 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD**

| **Adran Plant a Theuluoedd** | Amcan Cyllideb 2023/24 | Amcan Sefyllfa 2023/24 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2023/24** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2023/24** | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Awst 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth Gwasanaeth | 593 | 581 | (12) | | (12) | (27) |
| Gweithredol | 2,566 | 2,979 | 413 | | 413 | 412 |
| Lleoliadau | | | | | | |
| Lleoliadau All-Sirol | 5,536 | 6,042 | 506 | | 506 | (755) |
| Maethu Drwy Asiant | 1,791 | 1,478 | (313) | | (313) | (331) |
| Maethu Mewnol | 2,856 | 2,652 | (204) | | (204) | (282) |
| Gwasanaethau Cefnogol ac Eraill | 1,969 | 2,082 | 113 | | 113 | 147 |
| | 12,152 | 12,254 | 102 | 0 | 102 | (1,221) |
| Ôl-16 | 1,477 | 1,376 | (101) | | (101) | (100) |
| Arbenigol/Derwen | 2,393 | 3,167 | 774 | | 774 | 707 |
| Cyfiawnder Ieuenctid | 275 | 244 | (31) | | (31) | (30) |
| Blynyddoedd Cynnar | 153 | 141 | (12) | | (12) | 6 |
| Uned Datblygu'r Gweithlu | 117 | 117 | 0 | | 0 | 0 |
| Eraill | 2,107 | 2,236 | 129 | | 129 | 142 |
| Cyfraniad i Gronfa Gorwariant yr Adran | | | 0 | | 0 | 76 |
| **Cyfanswm Plant a Theuluoedd** | **21,833** | **23,095** | **1,262** | **0** | **1,262** | **(35)** |

**Plant a Theuluoedd**

**Gweithredol** - cynnydd yn y pwysau ar gefnogaeth cynlluniau cefnogol ynghyd â staffio uwchlaw y gyllideb gweithwyr maes.

**Lleoliadau** - symudiad o £1.3 miliwn yn y rhagolygon ar leoliadau all-sirol ers Adolygiad Awst gyda rhagolygon o orwariant o £506k, cynnydd yn y costau oherwydd cymhlethdodau pecynnau a gwelwyd cynnydd yn y nifer cyfartalog i 28.5 (25.7 ar gyfer 2022/23), gyda'r gost oddeutu £226k yr achos.

Niferoedd cyfartalog Maethu drwy Asiant a Maethu Mewnol yn gyson efo niferoedd 2022/23 ond gan fod yna nifer o geiswyr lloches heb rieni neu warcheidwaid yn derbyn gwasanaeth, derbyniad incwm ar eu cyfer gan y Swyddfa Gartref yn arwain at danwariant. Pwysau ar y gyllideb gweithwyr cefnogol a'r Tim Lleoliadau.

**Ôl-16** - lleihad yn y pwysau ar y ddarpariaeth yn dilyn i becynnau dwys ddod i ben yn ddiweddar.

**Arbenigol/Derwen** – y tueddiad gorwariant cynyddol yn parhau, rhagwelir gorwariant o £470k ar gostau gweithwyr cynlluniau cefnogol a chefnogaeth arbenigol. Bu newid yn y pwyslais o ran sut mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu, gyda mwy o bwysau ar daliadau uniongyrchol sydd yn gyfrifol am £76k o'r gorwariant. Rhagwelir gorwariant o £96k ar yr Uned Egwyl Fer oherwydd costau staff a lleihad mewn incwm yn dilyn i Gyngor Môn sefydlu darpariaeth eu hunain yn hytrach na dod i Wynedd am y gwasanaeth.

**Eraill** - cyfuniad o orwariant ar staffio, ffioedd gwasanaethau arbennigol ac ar gyfraniadau gwasanaethau ar y cyd.

**CYLLIDEB REFENIW 2023/24 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD**

| **Adran Addysg** | Amcan Cyllideb 2023/24 | Amcan Sefyllfa 2023/24 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2023/24** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2023/24** | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Awst 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ysgolion Datganoledig | 91,408 | 91,408 | 0 | | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion | (1,558) | (1,751) | (193) | | (193) | (201) |
| Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol | | | | | | |
| Cludiant | 6,286 | 7,817 | 1,531 | | 1,531 | 1,460 |
| Gwasanaeth Atodol | 1,531 | 1,481 | (50) | | (50) | (3) |
| Eraill | 3,574 | 3,543 | (31) | | (31) | (27) |
| | 11,391 | 12,841 | 1,450 | 0 | 1,450 | 1,430 |
| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | 2,549 | 2,362 | (187) | | (187) | (222) |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad | 5,255 | 5,228 | (27) | | (27) | 24 |
| Gwasanaeth Ieuenctid | 980 | 955 | (25) | | (25) | (33) |
| Defnydd o Gronfa Tanwariant yr Adran | 241 | | (241) | | (241) | (241) |
| Defnydd o Gronfeydd Eraill yr Adran | | | (700) | | (700) | 0 |
| **Cyfanswm Addysg** | **110,266** | **111,043** | **77** | **0** | **77** | **757** |

## Addysg

**Gwasanaeth Ansawdd Ysgolion** - cyfuniad o dderbyniad incwm a chwtogi ar wariant.

**Cludiant** - yn dilyn ail-dendro cytundebau bysus yn ddiweddar rhagwelir gorwariant o £833k erbyn diwedd y flwyddyn, ynghyd â chynnydd yn y rhagolygon gorwariant ar dacsis ysgolion i £697k.

Mae'r maes Cludiant yn destun adolygiad strategol i geisio rheoli'r cynnydd yn y gwariant, awgrymir fod y gwaith gan yr Adran Addysg a'r Adran Amgylchedd yn parhau, fel bod modd ceisio lleihau y gorwariant a manteisio ar gyfleoedd effeithlonrwydd.

**Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Gwasanaeth Atodol** - cynnydd mewn derbyniad incwm a grant yn Arlwyaeth ynghyd â throsiant staff yn lleihau effaith costau staff uwch a diffyg incwm ar yr elfen gofal o'r clybiau brecwast sydd yn gorwario £122k.

**Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Eraill** - tanwariant ar nifer o gyllidebau amrywiol.

**Arweinyddiaeth a Rheolaeth** - trosiant staff a thanwariant ar nifer o benawdau'r gyllideb.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad** - darlun cymysg sydd yn gyfuniad o gynnydd mewn trosiant staff a thanwariant ar nifer o benawdau amrywiol, tra bod amgylchiadau yn ymwneud ag un ganolfan benodol yn parhau ac yn gyfrifol am orwariant o £138k.

**Gwasanaeth Ieuenctid** - tanwariant ar gostau staff.

Er mwyn lleihau'r gorwariant a adroddir bwriad yr adran yw defnyddio eu cronfa tanwariant o £241k yn ei gyfanrwydd eleni. Yn ychwanegol i hyn mi fydd cronfeydd eraill yr adran gwerth £700k yn cael eu defnyddio i leihau'r gorwariant a adroddir.

**CYLLIDEB REFENIW 2023/24 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD**

| **Adran Economi a Chymuned** | Amcan Cyllideb 2023/24 | Amcan Sefyllfa 2023/24 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2023/24** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2023/24** | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Awst 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth | 517 | 527 | 10 | | 10 | 5 |
| Rhaglenni Adfywio a Chefnogi Cymunedau | 479 | 479 | 0 | | 0 | (39) |
| Morwrol a Pharciau Gwledig | (147) | (80) | 67 | | 67 | (27) |
| Cytundebau Byw'n Iach a Hamdden Eraill | 2,222 | 2,322 | 100 | | 100 | 70 |
| Rhaglenni Datblygu Economaidd | (35) | (110) | (75) | | (75) | 0 |
| Marchnata a Digwyddiadau | 296 | 296 | 0 | | 0 | 0 |
| Llyfrgelloedd Gwynedd | 1,787 | 1,752 | (35) | | (35) | (43) |
| Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd | 965 | 1,097 | 132 | | 132 | 112 |
| Defnydd o Gronfa Tanwariant yr Adran | 140 | | (140) | | (140) | 0 |
| **Cyfanswm Economi a Chymuned** | **6,224** | **6,283** | **59** | **0** | **59** | **78** |

**Economi a Chymuned**

**Morwrol a Pharciau Gwledig** - darlun cliriach erbyn hyn ar effaith y tywydd gwael dros yr haf ar y lefelau incwm, sydd wedi golygu diffyg incwm yn Hafan, Pwllheli, Doc Fictoria, traethau a'r harbyrau.

**Cytundebau Byw'n Iach a Hamdden Eraill** - trosglwyddwyd y ddarpariaeth hamdden i Gwmni Byw'n Iach yn Ebrill 2019, ond fod cyfrifoldeb am gostau rhedeg yr eiddo yn aros efo'r Cyngor. Dros y blynyddoedd diwethaf bu i effaith Covid amharu ar incwm y cwmni. Bu i Lywodraeth Cymru eu digolledu am y golled yn 2020/21 a 2021/22 o'u cronfa caledi. Yn 2022/23 rhoddodd y Cyngor £550k o gefnogaeth ariannol i Byw'n Iach uwchlaw taliad cytundebol y gontract ddarparu, i'w galluogi i gynnal eu gwasanaethau. Mae'r gefnogaeth ariannol yn parhau eleni a'r swm gofynnol wedi lleihau ymhellach i £350k.

Ymhellach, gorwariant o £100k ar gostau rhedeg eiddo Byw'n Iach.

**Rhaglenni Datblygu Economaidd** - llwyddiant i ddenu grantiau sydd yn rhyddhau cyllideb craidd y Cyngor.

**Llyfrgelloedd Gwynedd** - swydd wag, llai o wariant ar nifer o benawdau'r gyllideb ond lleihad mewn derbyniad incwm llogi ystafelloedd.

**Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd** - gorwariant yn bennaf gan fod diffyg incwm yn faterion yn Neuadd Dwyfor £88k a Storiel £44k.

Er mwyn lleihau'r gorwariant a adroddir bwriad yr adran yw defnyddio eu cronfa tanwariant o £140k yn ei gyfanrwydd eleni.

**CYLLIDEB REFENIW 2023/24 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD**

| **Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC (yn cynnwys Cefnffyrdd)** | Amcan Cyllideb 2023/24 | Amcan Sefyllfa 2023/24 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2023/24** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2023/24** | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Awst 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau:** | | | | | | |
| Priffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd) | 11,812 | 12,079 | 267 | | 267 | 507 |
| Peirianneg | 415 | 392 | (23) | | (23) | (5) |
| Bwrdeistrefol | 5,528 | 6,073 | 545 | | 545 | 480 |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | 12 | 3 | (9) | | (9) | 16 |
| **Cyfanswm Priffyrdd, Peirianneg ac YGC** | **17,767** | **18,547** | **780** | **0** | **780** | **998** |

**Priffyrdd, Peirianneg ac YGC (gan gynnwys Cefnffyrdd)**

**Gwasanaethau Priffyrdd** - llai o waith yn cael ei gomisiynu gan asiantaethau allanol ac felly yn cael effaith negyddol ar incwm.

**Gwasanaethau Peirianneg** - derbyniad incwm a thanwariant ar amrywiol benawdau.

**Gwasanaethau Bwrdeistrefol** - darlun cymysg sydd yn gyfuniad o ffactorau, pwysau ychwanegol ar gyllidebau glanhau strydoedd a glanhau toiledau cyhoeddus. Colledion incwm cynnal tiroedd a thoiledau cyhoeddus, ond incwm yn uwch gan y gwasanaethau profedigaeth sydd yn lleihau'r gorwariant a adroddir.

**Ymgynghoriaeth Gwynedd** - tanwariant staff a gwelliant yn y rhagolygon incwm y gwasanaeth adeiladu a'r gwasanaeth ffyrdd a pheirianneg.

**CYLLIDEB REFENIW 2023/24 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD**

| **Adran Amgylchedd** | Amcan Cyllideb 2023/24 | Amcan Sefyllfa 2023/24 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2023/24** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2023/24** | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Awst 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth yr Adran | 814 | 815 | 1 | | 1 | (17) |
| Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu | 600 | 788 | 188 | | 188 | 65 |
| Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth | | | | | | |
| Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth) | 135 | 5 | (130) | | (130) | (260) |
| Parcio a Gorfodaeth Parcio | (2,015) | (2,058) | (43) | | (43) | 142 |
| Cludiant Integredig | 2,059 | 2,072 | 13 | | 13 | 379 |
| | 179 | 19 | (160) | 0 | (160) | 261 |
| Cefn Gwlad a Mynediad | 697 | 698 | 1 | | 1 | 1 |
| Gwarchod y Cyhoedd | 1,917 | 1,713 | (204) | | (204) | (196) |
| Gwastraff | 14,407 | 14,994 | 587 | | 587 | 452 |
| Defnydd o Gronfa Tanwariant yr Adran | 75 | | (75) | | (75) | (55) |
| **Cyfanswm Amgylchedd** | **18,689** | **19,027** | **338** | **0** | **338** | **511** |

**Amgylchedd**

**Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu -** rhagolygon o ddiffyg incwm cynyddol yn faterion yn Rheolaeth Datblygu a Pridiannau Tir, ond sydd yn cael ei leihau gan danwariant ar gostau staff.

**Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth**
**Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth) -** yn rhagori ar yr incwm ffioedd gwaith stryd, ynghyd â swyddi gweigion a thanwariant ar nifer o benawdau'r gyllideb.

**Parcio a Gorfodaeth Parcio -** y rhagolygon diffyg incwm parcio wedi lleihau i £23k bellach ynghyd â thanwariant ar gyllidebau eraill.

**Cludiant Integredig** - ail-dendro cytundebau bysus cyhoeddus yn ddiweddar wedi cynnyddu'r gorwariant ymhellach ond derbyniad grant sylweddol gan Trafnidiaeth Cymru wedi cynorthwyo i leddfu'r sefyllfa. Awgrymir y dylid parhau efo'r adolygiad i'r ddarpariaeth Cludiant.

**Gwarchod y Cyhoedd** - swyddi gwag a llai o wariant ar nifer o benawdau'r gyllideb.

**Gwastraff -** nifer o faterion yn gyfrifol am y gorwariant, ond yn bennaf ar gasglu gwastraff ac ailgylchu. Cylchdeithiau ychwanegol wedi arwain at orwariant ar gostau cyflogaeth a chostau fflyd. Lefelau salwch a goramser hefyd yn broblemus, tra fod na gostau ychwanegol o ran hurio cerbydau. Gorwariant ar gostau rhedeg y canolfannau ailgylchu ac ar drin defnyddiau ailgylchu. Er bod lleihad mewn gwastraff gweddilliol, costau un-tro hanfodol yn y maes yn cynnyddu'r gorwariant a adroddir.

Yn dilyn y tueddiad gorwariant cynyddol yn y maes gwastraff dros y blynyddoedd diwethaf, bu i adolygiad allanol gael ei gomisiynu gan WRAP Cymru. Mae'r adroddiad a'r argymhellion ar ffyrdd i wella'r gwasanaeth yn derbyn sylw gan yr adran gyda chamau i ymateb i'r sefyllfa yn cael eu gweithredu.

Er mwyn lleihau y gorwariant a adroddir bwriad yr adran yw defnyddio eu cronfa tanwariant o £75k eleni.

**CYLLIDEB REFENIW 2023/24 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD**

| **Adran Tai ac Eiddo** | Amcan Cyllideb 2023/24 | Amcan Sefyllfa 2023/24 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2023/24** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2023/24** | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Awst 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth | 362 | 315 | (47) | | (47) | (30) |
| Gwasanaethau Tai | | | | | | |
| Digartrefedd | 4,993 | 6,406 | 1,413 | | 1,413 | 1,555 |
| Tai Sector Breifat | 442 | 429 | (13) | | (13) | 42 |
| Eraill | 248 | 198 | (50) | | (50) | (83) |
| | 5,683 | 7,033 | 1,350 | 0 | 1,350 | 1,514 |
| Gwasanaethau Eiddo | | | | | | |
| Eiddo | 4,261 | 4,229 | (32) | | (32) | (21) |
| Gofalu, Arlwyo a Glanhau | 12 | 8 | (4) | | (4) | (2) |
| | 4,273 | 4,237 | (36) | 0 | (36) | (23) |
| Darpariaeth Un-tro Covid Corfforaethol | 1,200 | | (1,200) | | (1,200) | (1,400) |
| **Cyfanswm Tai ac Eiddo** | **11,518** | **11,585** | **67** | **0** | **67** | **61** |

## Tai ac Eiddo

**Rheolaeth** - tanwariant ar gostau staff ac ar wasanaethau a chyflenwadau.

**Digartrefedd** - y tueddiad o bwysau sylweddol ar y gwasanaeth Llety Dros Dro yn parhau i fod yn ddwys iawn gyda chostau cyfartalog uwch gan fod argaeledd llety dros dro yn y sir wedi cyrraedd ei gapasiti. Mae'r gorwariant o £1.4m a adroddir yn dilyn ystyried y gyllideb ychwanegol o £3m sydd wedi ei ddyrannu o bremiwm treth cyngor ac hefyd derbyniad grant o £597k gan y Llywodraeth i gynorthwyo gyda'r pwysau ychwanegol.

**Tai Sector Breifat** - trosiant staff a thanwariant ar gyflenwadau a gwasanaethau ond diffyg yn yr incwm grant cyfleusterau i'r anabl.

**Gwasanaethau Tai, Eraill** - effaith derbyniad grant a thanwariant ar gostau staff yn cael ei leihau gan gostau ychwanegol yn y maes Sipsiwn a Theithwyr.

**Gwasanaethau Eiddo** - swyddi gwag yn Eiddo sydd yn lleddfu'r gorwariant ar wasanaethau a chyflenwadau ac ar gostau cerbydau yn Difa Pla.

**Darpariaeth un-tro Covid Corfforaethol** - bu modd lleihau y dyraniad un-tro i gyfarch y costau ychwanegol yn ymwneud â Digartrefedd o £1.4 miliwn i £1.2 miliwn.

**CYLLIDEB REFENIW 2023/24 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD**

| **Adrannau Canolog** | Amcan Cyllideb 2023/24 | Amcan Sefyllfa 2023/24 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2023/24** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2023/24** | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Awst 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 2,608 | 2,649 | 41 | | 41 | 37 |
| Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) | 7,874 | 7,944 | 70 | | 70 | 102 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 7,715 | 7,737 | 22 | | 22 | 62 |
| **Cyfanswm Adrannau Canolog** | **18,197** | **18,330** | **133** | **0** | **133** | **201** |

## Adrannau Canolog

**Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol -** pwysau ychwanegol o £47k ar elfen Gwynedd o gyllideb y Crwner, penodiadau diweddar yn Cyfreithiol wedi arwain at lai o ddefnydd o gyfreithwyr asiantaeth ac felly rhagwelir tanwariant o (£6k).

**Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) -** costau bancio yn gorwario £115k wrth i fwy o daliadau gan gwsmeriaid gael eu gwneud trwy ddefnyddio cardiau ac felly'r ffioedd banc cysylltiedig yn daladwy gan y Cyngor. Costau un-tro pellach o £25k i brynu offer i gydymffurfio â gofynion safonau diolgelwch data y diwydiant cardiau talu ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor. Y gorwariant yn cael ei leihau gan drosiant staff ac incwm uwch.

**Cefnogaeth Gorfforaethol -** cyfuniad o resymau yn gyfrifol am y sefyllfa gan gynnwys pwysau cynyddol ar y gyllideb cwnsela gyda gorwariant o £37k yn cael ei ragweld. Diffyg incwm yn faterion yn rhai meysydd gan gynnwys £33k Cyswllt Cwsmer a £20k yn yr Argraffdy. Tanwariant ar staffio ac ar gyllidebau amrywiol yn lleihau'r gorwariant a adroddir.

**CYLLIDEB REFENIW 2023/24 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD**

| **Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu y gwahaniaethau)** | Amcan Cyllideb 2023/24 | Amcan Sefyllfa 2023/24 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2023/24** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2023/24** | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Awst 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Treth Cyngor | * | * | (36) | 36 | 0 | 0 |
| Gostyngiadau Treth Cyngor | * | * | (574) | 574 | 0 | 0 |
| Costau Cyfalaf | * | * | (700) | 700 | 0 | 0 |
| Derbyniad Llog | * | * | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Pwysau Chwyddiant Tâl Uwchlaw'r Gyllideb | * | * | 1,600 | (1,600) | 0 | 0 |
| Dychwelyd Cyllidebau / Bidiau | * | * | (2,476) | 2,476 | 0 | 0 |
| Eraill | * | * | (2,055) | 2,055 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Corfforaethol** | * | * | **(4,241)** | **4,241** | **0** | **0** |

## Corfforaethol

**Treth Cyngor** - lleihad yn y rhagamcanion yn dilyn i nifer o ail gartrefi premiwm ostwng, gyda 181 yn is erbyn Tachwedd o'i gymharu â diwedd Mawrth 2023. Yn ychwanegol i hyn, er bod gostyngiad o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, bu i Swyddfa'r Prisiwr ganiatau 115 eiddo i drosglwyddo o dreth cyngor i drethi annomestig (452 yn 2022/23, 469 yn 2021/22, 506 yn 2020/21). Yn 2023/24 mae £6m o bremiwm treth cyngor wedi ei neilltuo ar gyfer y Strategaeth Dai a £3m pellach ar gyfer y maes Digartrefedd.

**Gostyngiadau Treth Cyngor** - gosod amcangyfrifon darbodus a lleihad pellach yn y niferoedd sydd yn hawlio'r gostyngiad yng Ngwynedd o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol.

**Costau Cyfalaf** - cyfuniad o ffactorau yn creu'r tanwariant gan gynnwys derbyniad incwm grant un-tro i gefnogi cynnal ariannu cynllun cyfalaf mawr. Hefyd, effaith y polisi rheolaeth trysorlys presennol wedi golygu y bu modd osgoi benthyca yn allanol, felly yn osgoi'r costau cysylltiedig.

**Pwysau Chwyddiant Tâl Uwchlaw'r Gyllideb** - yn dilyn cadarnhad y cynnydd cenedlaethol i gyflogau gweithwyr Llywodraeth Leol yn Nhachwedd, y gost i'r Cyngor yn £1.6 miliwn uwchlaw'r gyllideb a ystyriwyd i fod yn ddarbodus ar y pryd.

**Dychwelyd Cyllidebau / Bidiau** - y pwysau ar rai cyllidebau gan gynnwys y ddarpariaeth covid a thrydan ddim cymaint a'r hyn a ddarparwyd.

**Eraill -** ni fu y galw ar y ddarpariaeth mor uchel a'r hyn a ragwelwyd wrth osod y gyllideb.

**Argymhellir** fod y tanwariant net ar gyllidebau Corfforaethol, sef (£4,241k) yn mynd i'r Gronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol i gynorthwyo i gyllido'r bwlch ariannol sydd yn wynebu'r Cyngor.

Er ei bod hi'n gynamserol i drosglwyddo arian o gronfeydd hyd nes bydd y sefyllfa ariannol yn derfynol ar ddiwedd y flwyddyn, **argymhellir** mai'r drefn o ran defnyddio'r cronfeydd i gyllido'r bwlch ariannol bryd hynny fydd defnyddio:
- yn gyntaf, £3,800k o'r gronfa adfer yn sgil Covid a sefydlwyd i gyllido heriau ariannol.
- gyda'r gweddill yn cael ei gyllido o Gronfa Strategaeth Ariannol y Cyngor.

**CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | **Trosolwg Arbedion:**<br>**Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid** |
| **Swyddog perthnasol:** | **Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol**<br>**- Cyfrifeg a Phensiynau** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **23 Ionawr 2024** |

**1. Penderfyniad a geisir**

**1.1** Derbyn y wybodaeth yn yr adroddiad a nodi'r cynnydd tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2023/24 a blynyddoedd blaenorol.

**2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad**

**2.1** Mae gwireddu'r cynlluniau unigol yn gyfrifoldeb aelodau perthnasol o'r Cabinet, sy'n herio perfformiad yr adrannau gan gynnwys cynnydd y cynlluniau arbedion. Cyfrifoldeb yr Aelod Cabinet dros Gyllid yw cadw trosolwg o'r darlun cyfan.

**3. Cyflwyniad a Rhesymeg**

**Cefndir / Cyflwyniad**

**3.1** Mae'r adroddiad yma'n rhoi trosolwg o sefyllfa arbedion y Cyngor ar gyfer 2023/24 a blynyddoedd blaenorol yn dilyn adolygiad o'r sefyllfa ar ddiwedd Tachwedd 2023.

**3.2** Yn adroddiad 'Cyllideb 2023/24' i'r Cyngor Llawn 2 Mawrth 2023, adroddwyd fod arbedion gwerth £5,194,220 yn ofynnol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24 er mwyn cau'r bwlch cyllidol 2023/24. Roedd yr arbedion yn gyfuniad o £950,250 oedd wedi eu cymeradwyo mewn blynyddoedd blaenorol, ynghyd ag arbedion newydd o £1,146,600 ar gyfer Ysgolion a £3,097,370 ar gyfer gweddill y Cyngor.

**3.3** Yn ychwanegol, drwy adolygu polisi y Cyngor ar ad-dalu dyled sydd yn ariannu gwariant cyfalaf (Darpariaeth Lleiafswm Refeniw), fel sydd wedi ei nodi yn yr adroddiad i'r Cyngor Llawn 2 Mawrth 2023, ychwanegwyd £2,400,000 pellach at gynlluniau arbedion 2023/24.

**3.4** Felly roedd cyfanswm yr holl arbedion ar gyfer 2023/24 yn £7.6m.

## 4. Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad

### Ail-asesu arbedion

**4.1** Mae gan y Cyngor drefniadau cynllunio ariannol sydd eisoes wedi adnabod arbedion effeithlonrwydd sylweddol er mwyn isafu toriadau mewn gwasanaeth i drigolion Gwynedd. Er hyn, yn ystod y blynyddoedd diwethaf gwelwyd fod trafferthion gwireddu arbedion mewn rhai meysydd. Bu i werth £2,056,430 o gynlluniau oedd â risgiau sylweddol i'w cyflawni gael eu dileu fel rhan o'r Adolygiad Diwedd Awst 2023. Roedd gwerth £1,488,430 ohonynt yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r gweddill yn yr Adran Amgylchedd, Adran Priffyrdd a Pheirianneg a'r Adran Tai ac Eiddo.

## 5. Cynlluniau Arbedion Adrannol Hanesyddol 2015/16 – 2023/24

**5.1** Mae **Atodiad 1** yn crynhoi cyrhaeddiad pob adran yn seiliedig ar adolygiad Tachwedd 2023, yn erbyn y targed arbedion diwygiedig sydd wedi ei osod iddynt, **sydd yn gyfanswm o dros £34m. Gellir adrodd bod £33.7m, neu 98% o'r cynlluniau yma wedi eu gwireddu**, ond mae'r risg o wireddu'r arbedion ar rai o'r cynlluniau'n parhau.

**5.2** Mae 7 cynllun gwerth £391k yn wynebu risgiau i'w cyflawni; 3 cynllun gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant (cyfanswm o £222k), 2 gynllun gan yr Adran Economi a Chymuned (cyfanswm o £130k), 1 cynllun gan yr Adran Gyllid (£25k), ac 1 cynllun gan y Gwasanaeth Cyfreithiol (£14k).

**5.3** Mae 4 cynllun gwerth cyfanswm o £164k wedi llithro ond nid yw'r adrannau yn rhagweld problem i'w gwireddu.

## 6. Cynlluniau Arbedion Adrannol Newydd 2023/24

**6.1** Mae adroddiad Cyngor Llawn 2 Mawrth 2023 yn nodi'r cynlluniau arbedion effeithlonrwydd newydd gwerth £6.7m sydd wedi ariannu'r bwlch cyllidol yn 2023/24.

**6.2** Mae **Atodiad 2** yn crynhoi cyrhaeddiad pob adran yn seiliedig ar adolygiad Tachwedd 2023. **Gellir adrodd fod £5.4m, neu 81% o'r cynlluniau yma eisoes wedi eu gwireddu, gyda £428k, neu 6% pellach ar drac i gyflawni'n llawn ac amserol.**

**6.3** Ar hyn o bryd rhagwelir bod rhai risgiau gwireddu gwerth bron i £134k o gynlluniau, 1 cynllun gan yr Adran Amgylchedd gwerth £70k ac 1 cynllun gan yr Adran Gyllid gwerth £64k.

**6.4** Mae ychydig o oediad i wireddu gwerth £694k o gynlluniau arbedion 2023/24 ond nid yw'r adrannau yn rhagweld problem i'w gwireddu. Mae mwyafrif o'r swm yma yn cynnwys arbedion o £539k gan ysgolion, sydd yn llithro gan fod ysgolion yn gweithio i flwyddyn academaidd ac felly bydd y gwireddu yn llithro i'r flwyddyn ariannol nesaf.

## 7. Cynlluniau Arbedion Adrannol 2024/25 ymlaen

**7.1** Yn sgil y setliad ariannol gwael ac hefyd yr hinsawdd economaidd presennol a'r lefelau chwyddiant uchel, mae'n anorfod fod rhaid i Awdurdodau Lleol edrych ar arbedion a thoriadau i gynorthwyo'r sefyllfa ariannol. Mae cynlluniau arbedion a thoriadau ychwanegol ar gyfer 2024/25 eisoes dan ystyriaeth gan Gyngor Gwynedd ac mi fyddant yn destun adroddiad yn fuan.

**7.2** Rhestrir arbedion presennol 2024/25 ymlaen, sydd werth £4.3 miliwn fesul Adran yn **Atodiad 3**, yr arbedion hanesyddol gwerth £215k yn Nhabl 1 a'r arbedion newydd gwerth £4.1 miliwn yn Nhabl 2, ond mae'n gynamserol i adrodd ar statws y cynlluniau yma ar hyn o bryd.

## 8. Casgliad

**8.1** Gellir adrodd bod cyfanswm o £39.1 miliwn o arbedion wedi eu gwireddu ers 2015/16, sydd yn 96% o'r £41m gofynnol dros y cyfnod. Mae'n anorfod bod gwireddu'r arbedion wedi bod yn heriol ac rwy'n ddiolchgar i'r holl adrannau a'r Aelodau Cabinet am sicrhau'r llwyddiant yma.

**8.2** Mae'r tabl isod yn crynhoi sefyllfa ddiweddaraf y cynlluniau arbedion ers Ebrill 2015 gyda 96% o'r holl gynlluniau wedi eu gwireddu.

**Tabl 1: Crynodeb o statws yr holl gynlluniau arbedion ers Ebrill 2015**

| **Statws yr Arbediad** | **Porth** | **£m** | ***%*** |
|---|---|---|---|
| Wedi gwireddu | 1 | 39.13 | *95.6* |
| Ar drac i gyflawni'n llawn ac amserol | 2 | 0.43 | *1.0* |
| Oediad, ond yn symud yn ei flaen | 3 | 0.86 | *2.1* |
| Rhai risgiau i gyflawni - yn llithro neu methu | 4 | 0.49 | *1.2* |
| Risgiau sylweddol i gyflawni yn llawn neu yn rhannol | 5 | 0.04 | *0.1* |
| **Cyfanswm arbedion** | | **40.95** | ***100*** |

**8.3** Felly, gofynnaf i'r Cabinet nodi'r cyrhaeddiad a amlinellir yn yr adroddiad yma tuag at wireddu'r cynlluniau arbedion.

**9. Camau nesaf ac amserlen**

**9.1** Gweithredu ar yr argymhellion gerbron a chyflwyno adroddiad dilynol i'r Cabinet yn dilyn sefyllfa derfynol diwedd y flwyddyn ariannol 2023/24.

**10. Sylwadau Swyddogion Statudol**

**10.1 Prif Swyddog Cyllid**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

**10.2 Swyddog Monitro**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Atodiadau:**

Atodiad 1 - Trosolwg cynlluniau arbedion hanesyddol 2015/16 - 2023/24 fesul adran

Atodiad 2 - Trosolwg cynlluniau arbedion newydd 2023/24 fesul adran

Atodiad 3 - Tabl 1 - Trosolwg cynlluniau arbedion hanesyddol 2024/25 ymlaen fesul adran

- Tabl 2 - Trosolwg cynlluniau arbedion newydd 2024/25 ymlaen fesul adran

**ATODIAD 1**

**TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION HANESYDDOL 2015/16 I 2023/24 FESUL ADRAN**

| Adran | Cyfanswm Arbedion 2015/16 i 2023/24 | Cynlluniau wedi eu gwireddu | Cynlluniau wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro | | Cynlluniau sydd efo rhai risgiau i gyflawni | | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | *nifer* | £ | *nifer* | |
| Addysg | 1,659,740 | 1,659,740 | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Ysgolion | 4,331,620 | 4,331,620 | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Amgylchedd | 2,972,463 | 2,922,463 | 50,000 | *1* | - | | Llithriad ar un cynllun sef *Darparu pwyntiau gwefru ceir trydan mewn meysydd parcio (£50k).* |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 2,569,218 | 2,569,218 | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Cyllid | 1,881,636 | 1,856,636 | - | | 25,000 | *1* | Mae risgiau o wireddu arbedion y cynllun *Denu incwm ychwanegol drwy Asiantaeth Casglu Mewnol* (£25k) |
| Economi a Chymuned | 2,981,422 | 2,851,422 | - | | 130,000 | *2* | Mae rhai risgiau o gyflawni arbedion 2 gynllun; *Sefydlu ffioedd parcio ar draeth Dinas Dinlle a chynyddu ffioedd lansio ar draws traethau Gwynedd o £10 i £15 (£45k)* a chynllun yn ymwneud â *Neuadd Dwyfor (£85k).* |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 6,594,981 | 6,293,051 | 79,360 | *2* | 222,570 | *3* | Mae rhai risgiau cyflawni arbedion 3 cynllun sef *Gwella prosesau gwaith drwy gynnal adolygiad Ffordd Gwynedd a defnyddio modiwlau cyllid y system TG newydd o fewn yr Adran Oedolion* (£40k), *Adolygiad pecynnau Gofal Iechyd Parhaus* (£47.57k) ac *Adolygu'r trefniadau gweithredu o fewn yr Adran Oedolion* (£135k). Mae 2 gynllun pellach gwerth cyfanswm o £79k wedi llithro ond mae'r Adran yn rhagweld gwireddu rhain yn ystod 2023/24; *Cynyddu incwm a lleihau costau eraill* sydd gyda balans o £30k sydd eto i'w wireddu ac *Ail strwythuro'r Gwasanaeth Busnes gan leihau cefnogaeth i dimau oddi fewn i'r Adran ac i'r Adran Plant* (£49k). |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 2,318,908 | 2,318,908 | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |

**ATODIAD 1**

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION HANESYDDOL 2015/16 I 2023/24 FESUL ADRAN

| Adran | Cyfanswm Arbedion 2015/16 i 2023/24 | Cynlluniau wedi eu gwireddu | Cynlluniau wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro | | Cynlluniau sydd efo rhai risgiau i gyflawni | | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | *nifer* | £ | *nifer* | |
| Priffyrdd a Pheirianneg | 5,928,910 | 5,893,910 | 35,000 | *1* | - | | Mae'r cynllun *Pont Abermaw – peidio talu Network Rail am yr hawl tramwy dros y bont* (£35k) wedi llithro ond mae'r Adran yn parhau i fod mewn trafodaethau efo Network Rail. |
| Ymgynghoriaeth | 602,670 | 602,670 | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 403,240 | 389,440 | - | | 13,800 | *1* | Mae llithriad ar y cynllun Arbedion yng nghyllideb y Crwner gwerth £13.8k gan ei fod yn seiliedig ar ragamcaniad a wnaethpwyd rhai blynyddoedd yn ôl am adolygiad ardaloedd Crwner Gogledd Cymru. Nid yw hyn am ddigwydd bellach. |
| Tai ac Eiddo | 843,230 | 843,230 | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| **Is-gyfanswm** | **33,088,038** | **32,532,308** | **164,360** | 4 | **391,370** | 7 | |
| Arbedion Rheolaethol | 1,200,360 | 1,200,360 | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| **CYFANSWM** | **34,288,398** | **33,732,668** | **164,360** | *4* | **391,370** | *7* | **Yn nhermau ariannol (£), mae 98% o gynlluniau arbedion hanesyddol 2015/16 - 2023/24 wedi eu gwireddu.** |

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION NEWYDD 2023/24 FESUL ADRAN

| Adran | Cyfanswm Arbedion 2023/24 | | Cynlluniau wedi eu gwireddu | | Cynlluniau ar drac i gyflawni'n amserol | | Cynlluniau sydd yn llithro a cynlluniau gyda rhai risgiau i gyflawni'r arbedion | | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | *nifer* | £ | *nifer* | £ | *nifer* | £ | *nifer* | |
| Addysg | 852,990 | *18* | 852,990 | *18* | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Ysgolion | 1,146,600 | *1* * | 607,700 | *1* | - | | 538,900 | * | Bu oediad ar ran o'r cynllun arbedion effeithlonrwdd ysgolion yn bennaf oherwydd fod ysgolion yn gweithio o fewn blwyddyn academaidd ac felly bydd y swm sy'n weddill yn gwireddu yn y flwyddyn ariannol nesaf. |
| Amgylchedd | 319,190 | *12* | 230,690 | *10* | - | | 88,500 | *2* | Mae un cynllun sef *Gwella effeithlonrwydd defnydd o safleoedd trin/trosglwyddo gwastraff* gwerth £70k gyda rhai risgiau. Bu oediad ar gynllun arall sef *Trefniadau mwy effeithlon ar gyfer diogelwch y ffyrdd* gwerth £18.5k ond yn symud yn ei flaen. |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 275,250 | *12* | 267,690 | *11* | 7,560 | *1* | - | | Dim problem gwireddu'r un cynllun sydd ar drac i gyflawni'n amserol. |
| Cyllid | 294,060 | *7* | 19,820 | *2* | 138,670 | *3* | 135,570 | *2* | Mae risgiau o gyflawni arbedion y cynllun *Cynyddu targedau incwm Adrannol i fod yn gymesur â'r gwaith,* gwerth £64k. Bu oediad ar y cynllun *Ail strwythuro y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth* gwerth £71.5k ond yn symud yn ei flaen. |
| Economi a Chymuned | 310,770 | *21* | 237,250 | *15* | 63,520 | *5* | 10,000 | *1* | Bu oediad ar un cynllun sy'n ymwneud â Byw'n Iach sef *Mewnoli trefniadau archwilio adeilad,* ond yn symud yn ei flaen. |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 172,810 | *10* | 82,150 | *5* | 70,540 | *3* | 20,120 | *2* | Bu oediad ar ddau gynllun yn ymwneud â *Chyflawni arbedion effeithlonrwydd drwy wneud gwell defnydd o offer/technoleg,* yn y maes *anableddau corfforol* (£10k) *a Iechyd Meddwl, Diogelu a Sicrwydd Ansawdd* (£10k), ond yn symud yn eu blaen. |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 44,010 | *4* | 44,010 | *4* | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth | 215,940 | *6* | 175,940 | *3* | 35,000 | *2* | 5,000 | *1* | Bu oediad ar y cynllun *Codi cyfraniadau gwasanaeth Teledu Cylch Cyfyng i adlewyrchu'r gwir gôst,* ond yn symud yn ei flaen. |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 131,190 | *7* | 131,190 | *7* | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Tai ac Eiddo | 499,120 | *9* | 356,820 | *3* | 112,800 | *5* | 29,500 | *1* | Bu oediad ar y cynllun *Gosod gofod swyddfa ychwanegol i ddod a incwm rhent,* ond yn symud yn ei flaen. |
| Arbedion Rheolaethol | 2,400,000 | *1* | 2,400,000 | *1* | - | | - | | Yr un cynllun am y cyfnod wedi ei wireddu. |
| **CYFANSWM** | **6,661,930** | ***108*** | **5,406,250** | ***80*** | **428,090** | ***19*** | **827,590** | ***9*** | **Yn nhermau ariannol (£), mae 81% o gynlluniau arbedion newydd 2023/24 eisoes wedi eu gwireddu a 6% pellach ar drac i gyflawni'n amserol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.** |

** cynllun wedi ei wireddu yn rhannol mewn un blwyddyn ariannol ond eto i'w wireddu yn llawn.*

**ATODIAD 3**

**TABL 1**

**TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION HANESYDDOL 2024/25 YMLAEN FESUL ADRAN**

| Adran | 2024/25<br>£ | 2025/26<br>£ | Cyfanswm Arbedion 2024/25 a 2025/26<br>£ | - *nifer* |
|---|---|---|---|---|
| Economi a Chymuned | 15,000 | - | 15,000 | *1* |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | - | 200,000 | 200,000 | *1* |
| **CYFANSWM CYNLLUNIAU HANESYDDOL** | **15,000** | **200,000** | **215,000** | ***2*** |

**TABL 2**

**TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION NEWYDD 2024/25 YMLAEN FESUL ADRAN**

| Adran | 2024/25<br>£ | 2025/26<br>£ | Cyfanswm Arbedion 2024/25 a 2025/26<br>£ | - *nifer* |
|---|---|---|---|---|
| Addysg | 931,380 | - | 931,380 | *6* |
| Amgylchedd | 562,870 | 450,000 | 1,012,870 | *14* |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 45,660 | - | 45,660 | *3* |
| Cyllid | 207,720 | - | 207,720 | *6* |
| Economi a Chymuned | 50,660 | - | 50,660 | *6* |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 1,193,040 | - | 1,193,040 | *5* |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 157,960 | - | 157,960 | *2* |
| Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth | 390,000 | - | 390,000 | *5* |
| Tai ac Eiddo | 128,840 | - | 128,840 | *3* |
| **CYFANSWM CYNLLUNIAU NEWYDD** | **3,668,130** | **450,000** | **4,118,130** | ***50*** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **CYFANSWM** | **3,683,130** | **650,000** | **4,333,130** | ***52*** |

# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Rhaglen Gyfalaf 2023/24 –<br>Adolygiad Diwedd Tachwedd (sefyllfa 30 Tachwedd 2023) |
| **Aelod Cabinet:** | Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid |
| **Swyddog perthnasol:** | Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 23 Ionawr 2024 |

1. **Penderfyniad a Geisir:**
   - Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd (sefyllfa 30 Tachwedd 2023) o'r rhaglen gyfalaf.
   - Cymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 3.2.3 o'r adroddiad, sef:
     - cynnydd o £3,576,000 mewn defnydd o fenthyca
     - cynnydd o £2,373,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
     - cynnydd o £317,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
     - cynnydd o £1,038,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill.

2. **Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor. Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf. Y Cabinet sydd wedi'u hawdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 3.2.2) a'i ariannu (rhan 3.2.3).

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2023/24 – 2025/26.

3. **Cyflwyniad a Rhesymeg**

**3.1 Cefndir/ Cyflwyniad**

Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o'r drefn adolygu cyllideb 2023/24. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae crynodeb yn rhan 3.2.2 a rhan 3.2.3 o'r adroddiad, gyda'r argymhellion yn rhan 1:

- Rhan 3.2.2: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £185.876m am y 3 blynedd 2023/24 – 2025/26.
- Rhan 3.2.3: Ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £7.304m ers yr adolygiad diwethaf.

- Rhan 3.2.4: Manylder grantiau ychwanegol ers yr adolygiad diwethaf.
- Rhan 3.2.5: Dadansoddiad dangosyddion darbodus cyfalaf.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

**3.2 Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad**

**3.2.1 Prif Gasgliadau**

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw:

- Fod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi tua £86.8m yn 2023/24 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £41.5m (48%) ohono wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol.

- Mae effaith heriau ariannol diweddar yn parhau ar y rhaglen gyfalaf ac i'w weld yn y ffigyrau a adroddir yn Atodiad C, gyda £23.2m sef 27% o'r gyllideb wedi ei wario hyd at ddiwedd Tachwedd eleni, o'i gymharu â 40% dros yr un cyfnod flwyddyn yn ôl.

- Mae £27.4m ychwanegol o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2023/24 i 2024/25 a 2025/26, ond ni achoswyd unrhyw golled ariannu i'r Cyngor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

### 3.2.2 Rhaglen Gyfalaf 2023/24 i 2025/26

Gweler isod y rhaglen gyfalaf arfaethedig ddiwygiedig ar ddiwedd Tachwedd 2023.

| ADRAN | ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | CYFANSWM | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Addysg | 14,480 | 16,095 | 40 | 30,615 | (185) |
| Amgylchedd | 7,725 | 3,423 | 775 | 11,923 | 493 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | - | - | - | - | - |
| Cyllid | 789 | 2,018 | 498 | 3,305 | - |
| Economi a Chymuned | 29,502 | 28,670 | 3,239 | 61,411 | 2,421 |
| Tai ac Eiddo | 14,836 | 21,751 | 7,130 | 43,717 | 615 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 2,834 | 4,127 | - | 6,961 | 36 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 332 | 200 | - | 532 | (22) |
| Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth | 12,741 | 6,466 | 2,011 | 21,218 | 3,961 |
| Corfforaethol | 3,571 | 2,123 | 500 | 6,194 | (15) |
| **CYFANSWM** | **86,810** | **84,873** | **14,193** | **185,876** | **7,304** |

### 3.2.3 Newidiadau i'r Ffynonellau Ariannu

Mae cynnydd o £7.304m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf dair blynedd ers sefyllfa'r adolygiad diwethaf. Nodir isod y ffynonellau ariannu arfaethedig ar gyfer hyn:

| ARIANNU | ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | CYFANSWM | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Benthyca gyda chefnogaeth | 8,233 | 8,233 | 6,610 | 23,076 | - |
| Benthyca Arall | 6,086 | 10,967 | 2,880 | 19,933 | 3,576 |
| Grantiau a Chyfraniadau | 41,485 | 35,376 | 3,239 | 80,100 | 2,373 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 246 | - | - | 246 | - |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | 2,673 | 99 | - | 2,772 | 317 |
| Cronfa Cyfalaf | 10,623 | 12,286 | 40 | 22,949 | - |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 17,464 | 17,912 | 1,424 | 36,800 | 1,038 |
| **CYFANSWM** | **86,810** | **84,873** | **14,193** | **185,876** | **7,304** |

### 3.2.4 Grantiau Ychwanegol

Ers yr adolygiad diwethaf, ddiwedd Awst, llwyddodd y Cyngor i ddenu grantiau ychwanegol o £2,418k a rhestrir y rhai mwyaf isod. Mae nifer o addasiadau ychwanegol gan gynnwys lleihad ar gynlluniau oedd yn is na'r amcan gwreiddiol yn dod â chyfanswm y symudiad i £2,373k (gweler Atodiad A am fwy o fanylion) :

- £661k Grant Cyfalaf Economi Gylchol gan Lywodraeth Cymru
- £550k Grantiau tuag at Gae Synthetig 3G Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon gan Sefydliad Pêl Droed Cymru a'r "Football Foundation"
- £350k Grant Rhwydwaith Orielau Celf Cyfoes gan Gyngor Celfyddydau Cymru
- £329k Grant Trawsnewid Trefi Bach gan Lywodraeth Cymru
- £140k Cyfraniadau gan Gymdeithasau Tai lleol tuag at system TG yn y maes Tai
- £135k Grant Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio (TRI) - Cynllun Adnewyddu Bangor
- £117k Grant Chwaraeon Cymru tuag at oleuadau yng Nghanolfan Tennis Arfon
- £100k Grant Cynllun Lesu Cymru gan Lywodraeth Cymru

### 3.2.5 Dangosyddion Darbodus Cyfalaf

Mae Côd Darbodus CIPFA yn nodi'r angen i adrodd ar y Dangosyddion Darbodus ( gweler Atodiad Ch am fwy o fanylion).

### 3.3 Camau nesaf

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen.

## 4. Sylwadau Swyddogion Statudol

### 4.1 Prif Swyddog Cyllid

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

### 4.2 Swyddog Monitro

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Rhestr Atodiadau:**

Atodiad A - Manylion y Prif Newidiadau

Atodiad B - Manylion Ail-broffilio

Atodiad C - Gwariant 8 mis cyntaf 2023/24

Atodiad Ch – Dangosyddion Darbodus Cyfalaf

**Rhestr Dogfennau Cefndir:**

Cyllideb 2023-2024 : Cyllidebau Blynyddol (llyw.cymru)

Strategaeth Cyfalaf 2023-24 : Cyngor Llawn 02/03/23 Eitem 9 - Strategaeth Gyfalaf 2023-24 yn cynnwys Strategaeth Buddsoddi a Benthyca.pdf (llyw.cymru)

**ATODIAD A**

**Manylion y Prif Newidiadau**

Gweler isod y cynllluniau perthnasol sydd yn achosi'r prif newidiadau i'r ffynonellau ariannu ers y gyllideb wreiddiol:

| | 2023/24<br>£'000 | 2024/25-2025/26<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Benthyca Arall** | | |
| • Rhaglen Rheoli Risg Arfordirol, Menter Benthyca Llywodraeth Leol (MBLlL) - Cynllun Hirael (Bangor*) (Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth).* | 3,598 | |
| **Grantiau a Chyfraniadau** | | |
| • Grant Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio (TRI) - Cynllun Adnewyddu Bangor *(Adran Economi a Chymuned).* | 135 | |
| • Grant Trawsnewid Trefi Bach gan Lywodraeth Cymru *(Adran Economi a Chymuned).* | 329 | |
| • Grant Cyfalaf Economi Gylchol gan Lywodraeth Cymru *(Adran Economi a Chymuned).* | 489 | 172 |
| • Grant Rhwydwaith Orielau Celf Cyfoes gan Gyngor Celfyddydau Cymru *(Adran Economi a Chymuned).* | 139 | 211 |
| • Grantiau tuag at Gae Synthetig 3G Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon gan Sefydliad Pêl Droed Cymru a'r "Football Foundation" *(Adran Economi a Chymuned).* | 550 | |
| • Grant Chwaraeon Cymru tuag at oleuadau yng Nghanolfan Tennis Arfon *(Adran Economi a Chymuned).* | 117 | |
| • Cronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF) – grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addasiadau sefydliadau a hwyluso gweithio ar y cyd ag asiantaethau eraill *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant).* | 36 | |

| | |
|---|---|
| • Cyfraniadau gan Gymdeithasau Tai lleol tuag at system TG yn y maes Tai *(Adran Tai ac Eiddo).* | 140 |
| • Grant Cynllun Lesu Cymru gan Lywodraeth Cymru yn y maes Tai *(Adran Tai ac Eiddo).* | 100 |
| **Refeniw Adrannol a Chorfforaethol** | |
| • Cyfraniadau refeniw tuag at Gae Synthetig 3G Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon gan amrywiol sefydliadau *(Adran Economi a Chymuned).* | 220 |
| • Cyfraniad refeniw tuag at system TG yn y maes Tai *(Adran Tai ac Eiddo).* | 75 |
| **Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill** | |
| • Addasiad cyfraniadau cyfatebol/ychwanegol tuag at amrywiol gynlluniau *(Adran Economi a Chymuned).* | (87) |
| • Cyfraniad Adrannol tuag at Rheoli Risg Arfordirol – Cynllun Hirael (Bangor) *(Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth).* | 54 |
| • Adnewyddu Cerbydau ac Offer *(Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth; Adran Amgylchedd).* | 745 |
| • Cyfraniad y gronfa benodol tuag at y cynllun Effeithlonrwydd Swyddfeydd (*Adran Tai ac Eiddo).* | 250 |
| • Cyfraniad y Gronfa Hinsawdd tuag at gynllun Datgarboneiddio Gwres (*Adran Tai ac Eiddo).* | 50 |

----------------------------

**ATODIAD B**

**Manylion Ail-broffilio'r Gyllideb**

Gweler isod y prif gynlluniau sydd wedi eu hail-broffilio ers y gyllideb wreiddiol:

| | 2023/24<br><br>£'000 | 2024/25 - 2025/26<br>£'000 |
|---|---|---|
| Cynlluniau Ysgolion (Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ac Eraill) *(Adran Addysg)* | (12,245) | 12,245 |
| Cynlluniau Ysgogi'r Economi ac Unedau Diwydiannol *(Adran Economi a Chymuned)* | (1,424) | 1,424 |
| Cynllun Adnewyddu Bangor *(Adran Economi a Chymuned)* | (145) | 145 |
| Cronfa Ffyniant Bro *(Adran Economi a Chymuned)* | (1,718) | 1,718 |
| Cynlluniau Morwrol, Parciau Gwledig a Hamdden *(Adran Economi a Chymuned)* | (63) | 63 |
| Cynllun Canolfan Integredig Maesgeirchen *(Adran Plant a Theuluoedd)* | (200) | 200 |
| Hwb Iechyd a Gofal Penygroes *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)* | (2,500) | 2,500 |
| Cynlluniau Sefydliadau Preswyl, Gofal Dydd ac eraill yn y maes Oedolion *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)* | (1,627) | 1,627 |
| Rhaglen Atal Dirywiad Ffyrdd *(Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth)* | 1,000 | (1,000) |
| Adnewyddu Cerbydau ac Offer *(Adrannau Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth; Amgylchedd)* | 81 | (81) |
| Cynlluniau Risgiau Arfordirol ac Atal Llifogydd *(Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth)* | (3,906) | 3,906 |
| Cynlluniau Trafnidiaeth, Gwelliannau Trefol a Chynlluniau Gwledig *(Adran Amgylchedd)* | (309) | 309 |
| Meysydd Parcio - Ail wynebu, Pwyntiau Gwefru ayyb *(Adran Amgylchedd)* | (377) | 377 |
| Systemau TG arbenigol Adran Amgylchedd *(Adran Amgylchedd)* | (48) | 48 |

| | | |
|---|---|---|
| Cynlluniau Grantiau ac Eraill Tai *(Adran Tai ac Eiddo)* | (200) | 200 |
| Cynlluniau Strategaeth Tai *(Adran Tai ac Eiddo)* | (11,010) | 11,010 |
| Cynlluniau Addasiadau i'r Anabl a Swyddfeydd *(Adran Tai ac Eiddo)* | (398) | 398 |
| Cynlluniau Rheoli Carbon a Phaneli Solar y Cyngor *(Adran Tai ac Eiddo)* | (2,855) | 2,855 |
| Cynlluniau Gwaredu Asbestos *(Adran Tai ac Eiddo)* | (580) | 580 |
| Adnewyddu Cyfarpar Technoleg Gwybodaeth *(Adran Cyllid)* | (1,400) | 1,400 |

**Noder:**
Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu unrhyw golled grant.
Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau presennol heb eu gwella.

**ATODIAD C**

**Gwariant Cyfalaf 8 Mis Cyntaf 2023/24**

| **CRYNODEB** | **RHAGLEN GYFALAF BLWYDDYN LAWN (adolygwyd Tachwedd) 2023/24 £'000** | **GWIR WARIANT 8 MIS HYD AT 30/11/2023 £'000** |
|---|---|---|
| Addysg | 14,480 | 8,519 |
| Amgylchedd | 7,725 | 1,319 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | - | - |
| Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) | 789 | 239 |
| Economi a Chymuned | 29,502 | 3,252 |
| Tai ac Eiddo | 14,836 | 5,439 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 2,834 | 146 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 332 | 47 |
| Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth | 12,741 | 4,213 |
| Corfforaethol | 3,571 | - |
| **CYFANSWM** | **86,810** | **23,174** |

**Noder:**
Mae’r gyfran sydd wedi’i wario eleni (27%) yn is na’r sefyllfa adeg yma'r llynedd (gwariant 8 mis 2022/23 yn 40%).

**ATODIAD Ch**

**Dangosyddion Darbodus Cyfalaf 2023/24**

Mae’r Cyngor yn mesur a rheoli ei wariant cyfalaf a benthyca gan gyfeirio at y dangosyddion dilynol.

Mae bellach yn ofyniad yn y Côd Darbodus CIPFA i adrodd ar rhain yn rheolaidd.

**Gwariant Cyfalaf**
Mae’r Cyngor yn ymgymryd ac yn cynllunio gwariant cyfalaf fel a grynhoir isod.

| | **Gwir 2022/23 £m** | **Amcan 2023/24 £m** | **Cyllideb 2024/25 £m** | **Cyllideb 2025/26 £m** |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Cronfa Gyffredinol | 38.0 | 87.2 | 85.2 | 14.6 |
| Prydlesu Cronfa Gyffredinol * | 0.0 | 0.0 | 5.0 | 0.0 |
| **CYFANSWM** | **38.0** | **87.2** | **90.2** | **14.6** |

**Mae’r Gwariant Cyfalaf am 2024/25 yn cynnwys £5m oherwydd newid yn y dull cyfrifo am brydlesau ac nid yw’n cynrychioli gwir wariant.*

Mae prif brosiectau cyfalaf y Gronfa Gyffredinol yn 2023/24 yn cynnwys ( gweler yr adroddiadau adolygiad am fanylion ailbroffilio lle bo’n berthnasol) :

- Cynlluniau /Strategaeth Tai - £21.6m
- Cynlluniau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy - £16.6m
- Cerbydau Adrannol - £5.4m
- Cynlluniau Eiddo - £3.7m
- Atal Llifogydd Arfordirol - £3.0m
- Unedau Diwydiannol - £2.9m

**Gofyn Cyllido Cyfalaf**

Mesurir cyllid sy'n ariannu dyled cronnus y Cyngor yn ôl y gofyn cyllido cyfalaf (GCC). Mae hyn yn cynyddu gyda gwariant cyfalaf newydd a ariennir drwy ddyled, ac mae'n lleihau gyda Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLlR) a derbyniadau cyfalaf a ddefnyddir i ddisodli dyled.

| | **Gwir 31.3.2023 £m** | **Amcan 31.3.2024 £m** | **Cyllideb 31.3.2025 £m** | **Cyllideb 31.3.2026 £m** |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Cronfa Gyffredinol * | 170.8 | 175.9 | 190.5 | 191.7 |

** Mae'r Gofyn Cyllido Cyfalaf am 2024/25 ac ymlaen i flynyddoedd dilynol yn cynnwys £5m o gynnydd oherwydd newid yn y dull cyfrifo am brydlesau.*

**Dyled Gros a'r Gofyn Cyllido Cyfalaf**

Yn ôl y canllaw statudol, dylai dyled aros islaw'r gofyn cyllido cyfalaf, ac eithrio yn y tymor byr. Mae'r Cyngor yn cydymffurfio ac yn disgwyl y bydd yn parhau i gydymffurfio â'r gofyn hyn yn y tymor canolig fel a ddangosir isod.

| | **Gwir 31.3.2023 £m** | **Amcan 31.3.2024 £m** | **Cyllideb 31.3.2025 £m** | **Cyllideb 31.3.2026 £m** | **Dyled ar 30.11.2023 £m** |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyled (gan gynnwys Menter Cyllid Preifat (MCP) a phrydlesau) | 102.5 | 101.3 | 98.7 | 94.0 | 102.1 |
| Gofyn Cyllido Cyfalaf | 170.8 | 175.9 | 190.5 | 191.7 | |

**Dyled a’r Terfyn Awdurdodedig a’r Ffin Gweithredol**

Mae'n ofyn cyfreithiol i'r Cyngor bennu terfyn benthyg fforddiadwy (fe'i gelwir hefyd y terfyn dyled awdurdodedig ar gyfer dyled allanol) bob blwyddyn. Yn unol â chanllaw statudol, pennir "ffin gweithredol" is. Dyma'r lefel rhybudd os bydd dyled yn agosáu at y terfyn.

| | **Uchafswm Dyled 2023/24 £m** | **Dyled ar 30.11.2023 £m** | **Terfyn Awdurdodedig 2023/24 £m** | **Ffin Gweithredol 2023/24 £m** | **Wedi cydymffurfio?** |
|---|---|---|---|---|---|
| Benthyca | 100.5 | 100.5 | | | |
| Menter Cyllid Preifat (MCP) a phrydlesau | 1.6 | 1.6 | | | |
| **Cyfanswm Dyled** | 102.1 | 102.1 | 200 | 190 | Do |

Oherwydd mai offeryn rheolaeth at ddiben monitro o fewn y flwyddyn yw’r ffin gweithredol, nid yw’n arwyddocaol os eir yn uwch na’r ffin ar achlysur oherwydd amrywiadau mewn llif arian ac nid yw hyn yn cael ei ystyried yn fethiant i gydymffurfio.

**Cyfran Costau Ariannu i’r Llif Refeniw Net**

Er nad yw’r gyllideb refeniw yn talu am wariant cyfalaf yn uniongyrchol, mae'r llog sy'n daladwy ar fenthyciadau a Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLlR) yn gost ar refeniw. Gelwir y ffi net flynyddol yn gostau ariannu. Cymharir hyn gyda'r ffrwd refeniw net h.y. y swm a gyllidir drwy Dreth Cyngor, Trethi Annomestig Cenedlaethol a grantiau cyffredinol gan y llywodraeth.

| | **Gwir 2022/23** | **Amcan 2023/24** | **Cyllideb 2024/25** | **Cyllideb 2025/26** |
|---|---|---|---|---|
| Costau Ariannu * (£m) | £11.5m | £7.7m | £8.0m | £9.3m |
| Cyfran y Llif Refeniw Net (%) | 3.9% | 2.4% | 2.5% | 2.8% |

** Mae’r Costau Ariannu am 2024/25 ac ymlaen i flynyddoedd dilynol yn cynnwys £0.7m o gynnydd oherwydd newid yn y dull cyfrifo am brydlesau.*

**Dangosyddion Rheolaeth Trysorlys**

Mae’r dangosyddion hyn (Meincnod Ymrwymiad, Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau, Buddsoddiadau Rheolaeth Trysorlys Tymor Hir) yn cael eu hadrodd ar wahân fel rhan o’r Adroddiad Rheolaeth Trysorlys am y cyfnod dan sylw.

## CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Addysg |
| **Aelod Cabinet:** | Cyng. Beca Brown, Aelod Cabinet Addysg |
| **Swyddog perthnasol:** | Debbie A W Jones |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 23 Ionawr 2024 |

1. **Penderfyniad a Geisir:**
Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

2. **Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**
Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

3. **Cyflwyniad a Rhesymeg**

**3.1 Cefndir/ Cyflwyniad**

Pwrpas yr adroddiad yma yw eich diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Addysg. Mae hyn yn cynnwys cynnydd yn erbyn argymhellion adroddiad Estyn ar wasanaethau Addysg yr Awdurdod, amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yng Nghynllun y Cyngor; gwaith dydd i ddydd yr Adran; ynghyd â'r diweddaraf o ran cynllun arbedion a thoriadau.

Yn gyntaf, fodd bynnag, hoffwn longyfarch Gwern ap Rhisiart ar gael ei benodi'n bennaeth Addysg Gwynedd yn ddiweddar. Mae Gwern eisoes wedi cychwyn ar ei swydd, ac rwy'n edrych ymlaen i'r cyfnod newydd hwn i'r Adran Addysg ac ysgolion o dan ei arweiniad. Fel Aelod Cabinet Addysg, rwyf eisoes wedi cydweithio'n agos gyda Gwern, ac rwy'n edrych ymlaen at barhau i gydweithio a chynllunio gyda'r nod o wynebu cyfleoedd a heriau'r dyfodol er budd plant a phobl ifanc Gwynedd.

Ym mis Mehefin, cynhaliwyd arolygiad gan Estyn o wasanaethau Addysg yr Awdurdod a chyhoeddwyd yr adroddiad ar 20 Medi 2023. Mae'r adroddiad yn gadarnhaol ac rwy'n hynod o falch o hynny, gan ei fod yn brawf o waith caled a chyfraniad pawb yn y gyfundrefn.

Rydym yn gweithredu ar Gynllun y Cyngor 2023-28, ac yma rwyf yn adrodd ar y cynnydd a wnaed hyd at ddiwedd Rhagfyr 2023, gan gydnabod ei bod yn parhau'n ddyddiau cynnar yng nghyd-destun rhai o'r addewidion sy'n newydd yn y ddogfen ers Ebrill y llynedd eleni. Er hynny, mae'r holl faterion wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu

craffu gennyf mewn cyfarfod herio perfformiad, ac rwyf yn fodlon gyda pherfformiad yr Adran, a byddaf yn ymhelaethu ar y cynnydd yn yr adroddiad.

**3.2 Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad**

**Perfformiad Addewidion Cynllun y Cyngor**

**Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar**

Mae ymgynghorydd allanol wedi'i gomisiynu i ddatblygu ein platfform gwybodaeth ar gyfer y maes blynyddoedd cynnar mewn ymateb i'r hyn y mae plant a theuluoedd Gwynedd a darparwyr / gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar wedi ei ddweud wrthym am gymhlethdod mynediad i wasanaethau. Rydym hefyd wedi llunio Cynllun Gweithredu drafft, ynghyd â chynnal cynlluniau ymgysylltu penodol gyda'r cyhoedd a gweithdai gyda phartneriaid  ar yr elfennau iaith a lleferydd, ynghyd â threfniadau cyfathrebu fydd yn gyfrwng i siapio strategaeth newydd ar gyfer y maes Blynyddoedd Cynnar yng Ngwynedd. Rwy'n edrych ymlaen i adrodd ymhellach ar gynnydd y maes allweddol bwysig hwn y tro nesaf.

**Cinio ysgol am ddim**

Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynllun i ddarparu cinio am ddim i holl ddisgyblion cynradd ar draws Cymru. Ers y cyhoeddiad, mae gwaith sylweddol wedi ei gyflawni ar y cyd rhwng yr Adran Addysg a'r Tîm Datblygu Eiddo i sicrhau fod pob un o ysgolion cynradd y sir gyda'r offer pwrpasol, ynghyd â gofod bwyta priodol ar gyfer galluogi pob disgybl i allu manteisio ar y cynllun.

Ers 1 Medi 2023, rwy'n hynod o falch fod pob dysgwr cynradd o flwyddyn Derbyn i Flwyddyn 6 yng Ngwynedd yn gallu derbyn cinio ysgol am ddim. Mae sicrhau cinio poeth yn yr ysgol i bob plentyn cynradd o gymorth mawr i deuluoedd o ystyried y cynnydd mewn costau byw, a dw i'n awyddus i gynifer o deuluoedd â phosibl fanteisio ar y cynllun hwn. Yn sgil cwblhau gosod yr offer yng ngheginau ein hysgolion, mae'r gwasanaeth arlwyo a glanhau rŵan yn canolbwyntio ar hyrwyddo'r cynnig ymysg plant a theuluoedd, deall beth yw'r rhwystrau i rai teuluoedd rhag manteisio ar y cynnig, ynghyd â gweithredu cynlluniau peilot mewn rhai ysgolion lle mae'r gyfradd o blant sy'n elwa o'r cynnig o ginio ysgol am ddim yn is na'r hyn y byddem yn dymuno iddo fod. Edrychaf ymlaen at adrodd ymhellach i chi ar yr elfennau yma yn fy adroddiad nesaf, ond cyn hynny, rwy'n croesawu'r ffaith y bydd y craffwyr hefyd yn rhoi sylw i'r maes pwysig hwn mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ym mis Mawrth 2024.

**Moderneiddio adeiladau a'r amgylchedd dysgu**

Yn sgil cyflwr gwael adeilad ac amgylchedd dysgu presennol Ysgol Treferthyr rydym yn adeiladu ysgol newydd yng Nghricieth er mwyn gwella'r amgylchedd dysgu a sicrhau'r

adnoddau gorau i'r dysgwyr ffynnu. Mae'r gwaith adeiladu yn mynd rhagddo'n dda ar y safle, ac rwy'n edrych ymlaen at yr ysgol newydd yn agor erbyn Medi 2024.

Mae bwriad hefyd i adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Ein Harglwyddes ar safle Ysgol Glanadda (sydd bellach wedi cau) ym Mangor. Yn sgil cadarnhau'r costau terfynol ar gyfer adeiladu'r ysgol newydd, rydym wedi cyflwyno rhan olaf yr achos fusnes ar gyfer rhyddhau'r arian i Lywodraeth Cymru ddechrau mis Ionawr eleni.

Mae bwriad hefyd i wneud gwelliannau i Ysgol Hirael, ynghyd â gwelliannau sylweddol i Ysgol Tryfan ym Mangor, ac rwy'n hynod o falch o gefnogaeth y Cabinet i arallgyfeirio rhan o gyllideb y prosiect addysg ôl-16 yn Arfon ar gyfer gwireddu'r gwelliannau yma'n sgil cynnydd mewn costau. Mae Achos Fusnes ar gyfer rhyddhau'r arian i wireddu'r gwelliannau yn Ysgol Hirael wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ddechrau mis Ionawr, ac mae trafodaethau cychwynnol wedi eu cynnal gyda phennaeth Ysgol Tryfan er mwyn adnabod dyheadau'r ysgol ar gyfer y gwelliannau er mwyn ystyried a oes modd cwrdd â'r dyheadau rheiny i gyd yn sgil y gyllideb sydd ar gael ynghyd â chyfyngiadau'r safle. Ar hyn o bryd, rydym yn anelu at gyflwyno rhan gyntaf yr achos fusnes ar gyfer Ysgol Tryfan i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd Tymor y Gwanwyn 2024 er mwyn sicrhau amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf i'r dysgwyr.

Mae Ysgol y Faenol hefyd wedi cael estyniad sylweddol, fodd bynnag, mae materion cyfreithiol ynglŷn â throsglwyddiadau tir yn parhau, ac felly hoffwn nodi fy ngwerthfawrogiad i'r gwaith sydd wedi bod yn mynd rhagddo yn ddiweddar gan yr Adran Addysg a'r Adran Tai ac Eiddo gyda Chyngor Cymuned Pentir a Phwyllgor Canolfan Gymunedol Penrhosgarnedd i geisio sicrhau datrysiad dros dro i hwyluso parcio yn ystod oriau brig i rieni sydd yn dod a chasglu eu plant o Ysgol y Faenol yn ddyddiol. Rwy'n ymwybodol fod pryderon a rhwystredigaeth yn lleol am y sefyllfa ond hyderaf y bydd y mater wedi ei ddatrys yn fuan er sicrhau cwblhau'r prosiect sydd yn cynnwys canolfan gymunedol newydd.

Rwy'n hynod o falch o allu datgan ein bod wedi sicrhau £4.9m pellach i wella Cyflwr ac Addasrwydd 11 o ysgolion cynradd ac uwchradd yng Ngwynedd sydd wedi eu cynnwys yng ngwedd olaf y prosiect. Pwrpas y prosiect yma yw gwella cyflwr adeiladau presennol ein hysgolion, gan wneud addasiadau i'r adeiladau er mwyn sicrhau eu bod yn addas i bwrpas ac yn gwneud y defnydd gorau o'r gofod sydd ar gael. Mae'r gwaith eisoes wedi cychwyn yn rhai o'r ysgolion, a bydd gwaith yng ngweddill yr ysgolion yn cael ei raglennu dros y misoedd nesaf, gyda gwaith sylweddol mewn ambell ysgol i'w raglennu dros gyfnod gwyliau'r haf eleni.

Yn ystod Tymor yr Haf 2023 bu i ni gynnal 2 weithgor gyda phenaethiaid uwchradd Arfon er mwyn trafod ac ail-ymweld â'r achos dros newid gwreiddiol ar gyfer y prosiect addysg

ôl-16 yn Arfon. Bu i'r Adran adrodd yn ôl i'r penaethiaid ddechrau Medi 2023 yn sgil y gweithgorau a gynhaliwyd, ac yn dilyn hynny, cyflwynwyd adroddiad i Gabinet ym mis Tachwedd 2023 yn adrodd yn ôl ar gasgliadau'r gweithgorau. Rwy'n hynod ddiolchgar o gefnogaeth y Cabinet i arallgyfeirio rhan o gyllideb y prosiect ôl-16 i brosiectau moderneiddio eraill yn sgil y ffaith nad yw'r achos dros newid addysg ôl-16 yn Arfon mor gryf bellach. Er hynny, rwy'n edrych ymlaen i glywed ffrwyth y trafodaethau gyda'r Consortiwm Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn ynglŷn â chyfleoedd i gryfhau'r cydweithio ymhellach rhwng yr holl bartneriaid.

**Hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc a lleihau cost anfon plant i'r ysgol**
Mae'r prosiect hwn yn newydd yng Nghynllun y Cyngor ac yn un o fy mhrif flaenoriaethau i fel Aelod Cabinet Addysg. Ers ei sefydlu, mae holiaduron wedi eu llunio a'u dosbarthu i lywodraethwyr, staff, rhieni a phlant Ysgolion Gwynedd. O ddadansoddi'r holiaduron yma bydd modd adnabod y gwir gost o fynychu'r ysgol a'r heriau ariannol sy'n gysylltiedig â mynychu ysgol mae teuluoedd yn eu wynebu. Bydd y wybodaeth yma yn sail i ystyried ym mha ffordd y gall ysgolion, yr adran addysg ac adrannau eraill y cyngor gydweithio i leihau'r costau ac ysgafnhau baich ariannol ar deuluoedd o anfon eu plant i'r ysgol. Bydd templed o Gynllun Cydraddoldeb yn cael ei gyflwyno i ysgolion yn fuan, gan gymryd i ystyriaeth canfyddiadau a phrif negeseuon o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd ar Gynllun Cydraddoldeb yr Awdurdod. Bydd amcanion drafft wedi eu llunio fel man cychwyn i ysgolion eu haddasu i'w anghenion lleol. Rwy'n edrych ymlaen i adrodd ymhellach ar gynnydd y prosiect allweddol bwysig yma y tro nesaf.

**Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y sir**
Mae Grŵp Tasg a Gorffen wedi ei sefydlu i adnabod mesuryddion i fesur y deilliannau y mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn eu cyflawni i bobl ifanc. Hefyd, yn fwy diweddar, mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i gasglu data a gwybodaeth am y darpariaethau y mae'r gwasanaeth yn eu darparu drwy arolwg barn, ynghyd â holiaduron i ran-ddeiliaid. Rwy'n edrych ymlaen at weld canfyddiadau'r holiaduron yma'n ddiweddarach y mis hwn. Yn sgil y cyfarfod herio perfformiad diwethaf a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr, byddwn yn cydweithio gyda'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol mewn perthynas â'r offer chwarae ar gyfer plant a phobl ifanc.

**Moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant**
Ar 6 Gorffennaf 2021, bu i'r Cabinet gymeradwyo gweledigaeth newydd ar gyfer Cyfundrefn Addysg Drochi gyfoes yng Ngwynedd. Mae'r weledigaeth newydd yma hefyd yn cynnwys buddsoddiad cyfalaf o £1.1 miliwn gan Lywodraeth Cymru, ac mae gwelliannau eisoes wedi eu gwneud i safle Eifionydd, ynghyd â sefydlu safleoedd addysg drochi o'r newydd ym Mangor. Mae cais cynllunio hefyd wedi ei gymeradwyo ar gyfer sefydlu safle addysg drochi o'r newydd yn Nhywyn, ac rwy'n edrych ymlaen at weld y safle yma'n croesawu newydd-ddyfodiaid am y tro cyntaf erbyn Medi 2024. Rwyf hefyd

yn hynod o falch fod Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo ein hachos fusnes ar gyfer rhyddhau £1.1m pellach i ni ar gyfer buddsoddi a gwella'r amgylchedd dysgu yn ein safleoedd trochi cynradd a gaiff eu lleoli yng Nghaernarfon, Pwllheli a Dolgellau.

Mae grant refeniw Trochi Hwyr, Llywodraeth Cymru hefyd yn ein galluogi i gyfoesi'r ddarpariaeth drochi yn ein canolfannau. Bellach mae cynllun trochi Aberwla wedi ei ddatblygu, sy'n gynllun gwahaniaethol sy'n pontio'r cynradd a'r uwchradd. I gyd-fynd â'r cynllun mae'r prosiect arloesol digidol sy'n gosod cynllun Aberwla a'r cymeriadau ar lwyfan VR y byd rhithiol. Yn ystod Tymor yr Hydref 2023, bu i'r cwmni Animated Technologies gwblhau lleoliad yr Amgueddfa, ac maent ar hyn o bryd yn gweithio ar ddatblygu Caffi Puw Paned, Y Goedwig, a'r Safle Adeiladu erbyn diwedd Tymor yr haf 2024.

Rwy'n hynod o falch hefyd fod staff y Gyfundrefn Drochi wedi cynnal nifer o hyfforddiannau i athrawon a chymorthyddion y Cyfnod Sylfaen ym Medi 2023, gan allu ymateb hefyd i geisiadau gan ysgolion unigol am hyfforddiant neu gefnogaeth o safbwynt egwyddorion trochi. Hefyd, mae'r pennaeth yn y broses o sefydlu Grŵp Defnyddwyr ar gyfer y Gyfundrefn Drochi er mwyn rhannu profiadau, gwybodaeth a chael cyd-ddealltwriaeth rhwng y Gyfundrefn Drochi ac ysgolion, ac rwy'n edrych ymlaen i dderbyn adborth o'r Grŵp Defnyddwyr hynod bwysig yma.

Datblygiad cyffrous diweddar yng Ngwynedd yw bod gennym nifer o ysgolion bellach yn rhan o gynllun peilot *Say Something in Welsh* a Llywodraeth Cymru. Yn y sector uwchradd yn benodol, rydym yn ystyried y cynllun hwn fel peilot i gyfarch y bwlch o ran cefnogaeth i ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11 yr ysgolion sydd angen cefnogaeth i ddysgu Cymraeg, gan nad yw darpariaeth arferol y Gyfundrefn Drochi yn ymestyn i ddysgwyr y blynyddoedd hyn, er bod staff y gyfundrefn bob amser yn barod i gefnogi a chynnig arweiniad i ysgolion er mwyn cefnogi dysgwyr i gaffael y Gymraeg. Rwy'n edrych ymlaen i adrodd ymhellach i chi ar ddatblygiadau'r cynllun hwn a'i ganlyniadau mewn adroddiad i'r dyfodol.

**Gwaith dydd i ddydd yr Adran**

Rwy'n hynod o falch o'r cydnabyddiaeth a roddwyd gan Estyn yn eu hadroddiad i ymrwymiad yr Adran Addysg a'r Cyngor hwn i'r Gymraeg. Rwyf hefyd yn ddiolchgar iawn i aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi am eu gwaith o gynnal Ymchwiliad Craffu Ysgolion Uwchradd Categori 3 Gwynedd, ac rwyf i a'r Adran eisoes wedi cychwyn gweithredu ar rai o'r argymhellion, ac un o'r rheiny yw diweddaru'r Polisi Iaith Addysg, ac rwy'n edrych ymlaen at adrodd ymhellach i chi ar ffrwyth y gwaith hwn cyn diwedd y flwyddyn addysgol.

Mae gwaith yn parhau i fynd rhagddo i ddatblygu Campws Cymunedol ac amgylcheddol gyfeillgar ym Montnewydd, gwerth £12m gan Lywodraeth Cymru. Ar y cyd gyda dysgwyr Ysgol Bontnewydd a oedd yn rhan o'r panel cyfweld rydym wedi penodi cwmni pensaernïol, sef TACP Architects o Wrecsam i ddylunio'r adeilad newydd, ac mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i geisio dyluniad addas ar gyfer yr ysgol a'r gofod cymunedol ar y safle. Rwy'n edrych ymlaen i adrodd ar gynnydd pellach y prosiect hynod gyffrous hwn y tro nesaf.

Un o'r meysydd sydd wedi derbyn cryn sylw gennym yn herio perfformiad eleni, ac sydd yn un o argymhellion Estyn o wasanaethau addysg yng Nghyngor Gwynedd yw presenoldeb dysgwyr yn ein hysgolion. Rydym yn ymwybodol ers y pandemig nad yw lefelau presenoldeb dysgwyr wedi dychwelyd i'r hyn ydoedd cyn y pandemig, ac mae'r sefyllfa yng Ngwynedd yn adlewyrchu'r patrwm cenedlaethol. Fodd bynnag, drwy ymdrechion yr Adran ac ysgolion, mae cyfradd presenoldeb yr awdurdod wedi cynyddu i 90.51%, gyda'r sector cynradd wedi gwneud cynnydd da i 92.74%, tra bod presenoldeb y sector uwchradd yn 87.91%

Rwy'n hynod o falch hefyd ein bod wedi gallu ychwanegu cynhwysedd i'r Tîm Lles i allu ymateb a chefnogi dysgwyr a'u teuluoedd lle bo lefelau absenoldebau parhaus yn gymharol uchel. Yn ogystal, braf yw adrodd bod lefelau gwaharddiadau parhaol wedi gostwng yn gyffredinol yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref 2023. Mae rhaglen waith barhaus eisoes mewn lle sydd yn adolygu'r gwasanaeth a'r ddarpariaeth gyda'r nod o gynyddu presenoldeb a lleihau nifer y gwaharddiadau yn y sir, ac mae'r rhaglen waith yma i weld yn dwyn ffrwyth ar hyn o bryd.

Gyda thristwch, bu i'r Cabinet gymeradwyo'r cynnig i gau Ysgol Felinwnda ar 31 Rhagfyr 2023 gyda'r dysgwyr i drosglwyddo i ysgol amgen addas, sef Ysgol Llandwrog neu Ysgol Bontnewydd yn unol â dewis rhieni. Rwy'n dymuno'n dda i bob un o'r dysgwyr wrth iddynt ymgartrefu yn eu hysgol newydd, a dros y misoedd nesaf, bydd yr Adran yn paratoi ar gyfer cynnal ymgynghoriad ar ddalgylch Felinwnda, ac rwy'n edrych ymlaen i ystyried y sylwadau a dderbynnir yn sgil yr ymgynghoriad yma.

I gloi, mae'r Adran wedi bod yn gweithio ar lunio Strategaeth Addysg 10 mlynedd i Wynedd. Bu drafft cychwynnol ohono gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 14 Medi 2023, ac yn dilyn hynny bu ymgysylltu arno gyda phenaethiaid ein hysgolion drwy'r grwpiau strategol, ynghyd ag ymgysylltu gyda phobl ifanc mewn Fforwm Ieuenctid ym Motwnnog. Mae trefniadau ar y gweill i ymgysylltu ymhellach gyda dysgwyr drwy gyfrwng 6 Cyngor Ysgol ar draws y sir, ac rwy'n edrych ymlaen at dderbyn ac ystyried eu hadborth. Bydd sylw pellach yn cael ei roi i'r Strategaeth Addysg yn ystod y tymor yma, cyn ei gyflwyno gerbron y Cabinet i ofyn caniatâd i ni ymgynghori'n

gyhoeddus arno. Rwy'n edrych ymlaen at adrodd ar gynnydd pellach ar y Strategaeth Addysg y tro nesaf.

### 3.3 Sefyllfa Arbedion

Mae cyfanswm Cynlluniau Arbedion 2023-24 ar gyfer yr adran yn £835,030 ac mae'r cyfan wedi eu gwireddu. Targed arbedion cyfredol yr Adran ar gyfer 2024/25 yw £111,880, ac mae'r cwbl ar drac i'w cyflawni'n amserol.

Mae perfformiad ariannol yr Adran yn cael ei adrodd mewn eitem ar wahân i'r cyfarfod yma o'r Cabinet, gyda rhagolygon y bydd yr Adran yn gorwario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2023/24. Mae'r gorwariant yn bennaf ar gludiant disgyblion, gyda rhagolygon o orwariant o £1.5m ar y maes yma'n unig, ac mae'r pennawd yn destun adolygiad strategol i geisio rheoli'r cynnydd yn y gwariant ynghyd ag adnabod cyfleon i weithredu arbedion lle'n bosib. Mae cyfuniad o danwariant ar benawdau eraill ynghyd â defnydd o gronfeydd wrth gefn yn lleihau'r gorwariant a adroddir i £77k.

## 4. Sylwadau Swyddogion Statudol

### 4.1 Prif Swyddog Cyllid

*"Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol yr Adran Addysg."*

### 4.2 Swyddog Monitro

*"Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb."*

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr Eitem:** | **ADRODDIAD HERIO A CHEFNOGI PERFFORMIAD YR AELOD CABINET CYLLID** |
| **Aelod Cabinet:** | **CYNGHORYDD IOAN THOMAS** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **23 IONAWR 2024** |

**1. Penderfyniad a Geisir**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

**3. Cyflwyniad a Rhesymeg**

3.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw i ddiweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros Gyllid. Bydd yr adroddiad hwn yn amlinellu'r canlynol:-

- Yr hyn sydd wedi ei gyflawni fel rhan o flaenoriaethau Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028
- Lle mae'r mesurau perfformiad arni
- Diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau

3.2 Mae'r holl faterion a gyflwynir yn yr adroddiad yma wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf fi, ynghyd â'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, mewn Cyfarfod Herio a Chefnogi Perfformiad a gynhaliwyd ar 15ed Rhagfyr, ble roedd Tîm Rheoli'r Adran a'r rheolwyr gwasanaeth yn bresennol.

3.3 Rwy'n falch iawn o nodi fod perfformiad yr Adran Cyllid wedi aros yn gyffredinol dda dros y misoedd diwethaf. Mae'r Adran hefyd wedi gwneud cynnydd boddhaol ar y prosiectau blaenoriaeth perthnasol.

## 4. PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2023-2028 (Blaenoriaethau Gwella)

4.1 Mae'r Adran Gyllid yn arwain ar ddau brosiect blaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor 2023-28, sef:

- **Cyflawni Arbedion**
- **Cynllun Digidol 2023-28**

4.2 Rwyf yn fodlon iawn gyda'r cynnydd sy'n cael ei wneud gan yr Adran yn erbyn y ddau brosiect yma, ac mae mwy o fanylion am y cynnydd yn erbyn cerrig milltir i'w cael yn yr Atodiad.

## 5. PERFFORMIAD

5.1 Isod, rwy'n amlinellu'r prif faterion sy'n deillio o berfformiad yr adran yn y cyfnod ers cyflwyno'r adroddiad cynnydd ddiwethaf ym mis Hydref. Nid yw'r wybodaeth yn cyfeirio at bob gwasanaeth yn yr adran, dim ond y rhai hynny y teimlwn fod angen tynnu eich sylw atynt.

**5.2 Gwasanaeth TG – Cefnogol.** Rwyf wedi adrodd yn flaenorol fy mod yn fodlon iawn â pherfformiad y gwasanaeth yma ac fod gennym dystiolaeth ei fod yn ymateb yn brydlon i ymholiadau a trafferthion defnyddwyr.

Ymhellach, rwyf yn falch o adrodd fod y gwasanaeth wedi bod yn llwyddiannus wrth lenwi swyddi gwag allweddol yn ddiweddar. Mae trafferthion recriwtio wedi bod yn bryder yn y maes yma ers cryn amser, ond mae'r Gwasanaeth TG - Cefnogol wedi llwyddo penodi tri aelod newydd o staff yn ystod y cyfnod. Mae hyn yn allweddol er mwyn gallu cynnal y gwasanaeth disgwyliedig.

O ran maint y gefnogaeth a roddir, cofnodwyd 3,453 o ceisiadau am gymorth TG yn ystod Hydref a Tachwedd 2023, gyda 3,221 (93%) wedi eu hagor a'u cau yn ystod y cyfnod.

Mae cyfaint yr ohebiaeth e-bost allanol sy'n cael ei dderbyn a'i anfon, mewn cyfnod o ddau fis yn unig (Hydref a Tachwedd 2023), yn peri syndod. Anfonwyd 458,061 o e-byst allanol gan y Cyngor, a derbyniwyd 872,112 neges e-bost i mewn. Yn ychwanegol i hynny, cafodd 190,739 neges e-bost allanol eu hidlo neu eu hatal gan ein hamddiffynfeydd sy'n golygu fod systemau'r Cyngor wedi derbyn cyfanswm o 1,062,851 neges e-bost o'r tu allan mewn cyfnod o 2 fis yn unig.

**5.3 Gwasanaeth TG – Isadeiledd.** Rwyf yn falch iawn o allu adrodd fod argaeledd y Rhwydwaith Craidd a'n Systemau Critigol wedi bod yn 100% yn ystod Hydref a Tachwedd 2023. Ni fu unrhyw ddigwyddiad seibr na toriad gwasanaeth difrifol chwaith.

O osod hyn yn ei gyd-destun, cafodd 194,099 ymosodiad eu blocio gan y wal-dân ym mis Hydref, a 13 firws wedi eu rhwystro. Ym mis Tachwedd, cafodd 109,597 ymosodiad eu blocio gan y wal-dân a cafodd 17 firws eu rhwystro.

Mae parhad lefel perfformiad y Tîm Isadeiledd yn gwbl allweddol i allu'r Cyngor i barhau i gynnal ei wasanaethau.

5.4 **Gwasanaeth TG – Rheolaeth Rhaglen/Systemau Allanol.** Nodais yn yr adroddiad perfformiad diwethaf fy mod yn credu fod angen ailymweld â phwrpas y gwasanaeth yma. Mae'r gwaith wedi cychwyn, ac mae'r gwasanaeth wedi adnabod meysydd ble dylid cyflwyno mesurau cyflawni newydd, a bydd y gwasanaeth yn symud ymlaen gyda hynny yn ddi-oed. Y mesurau hyn yw:

- Boddhad Gwasanaeth ar draws y tîm (Trawsnewid Digidol a Tim Busnes)
- Ystadegau archebion gan gynnwys casglu neu bostio cyfarpar
- Costau ffonau symudol adrannol ar draws y Cyngor.

5.5 **Gwasanaeth TG – Gwasanaeth Dysgu Digidol.** Nodais yn yr adroddiad perfformiad diwethaf fod capasiti'r gwasanaeth i gefnogi'r ysgolion wedi bod yn is na'r disgwyl cyn gwyliau'r haf ond disgwyl i'r sefyllfa wella yn ystod tymor yr hydref. Rwyf yn fodlon fod y gwasanaeth wedi gallu cau canran uchel o'r galwadau mae'n ei dderbyn, gan ymdopi gyda cynnydd yn y galwadau ymdriniwyd â hwy yn ystod mis Tachwedd o'i gymharu â mis Hydref:

| Galwadau | Wedi eu cofnodi | Wedi eu cau | Yn parhau |
|---|---|---|---|
| **Hydref** | 531 | 422 | 275 |
| **Tachwedd** | 544 | 512 | 305 |

Er hynny, rwyf wedi gofyn i'r gwasanaeth gadw golwg ar y golofn "Yn parhau" rhag i ôl-groniad ddatblygu ac yn cydnabod bod offer hanesyddol yr ysgolion yn peri llawer fwy o broblemau na'r cyfarpar sydd wedi eu cyflwyno ers i'r gwasanaeth gael ei sefydlu.

Yn ystod y cyfnod, mae'r gwasanaeth wedi cynnal ymgyrch i dderbyn adborth bodlonrwydd. Anfonwyd holiadur i holl benaethiaid Ysgolion Cynradd, Arbennig, Uwchradd a Dilynol; derbyniwyd 25 ymateb, sydd ychydig yn siomedig o ran nifer. Roedd 85% o'r ymatebwyr yn hapus gyda'r gwasanaeth cefnogol maent yn dderbyn gan y gwasanaeth a cynigwyd syniadau gwella adeiladol gan nifer ohonynt. Gwelwyd fod 96% yn hapus gyda'r dyfeisiadau maent wedi dderbyn gan y gwasanaeth.

Mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r 15% sy'n anhapus gyda'r gwasanaeth cefnogol, gan gysylltu gyda'r ysgolion a gwrando ar y sylwadau. Adroddwyd am y rhesymau dros yr anfodlonrwydd i'r cyfarfod Herio a Chefnogi Perfformiad ac rwyf yn fodlon fod gwaith yn digwydd i ymateb i'r materion a godwyd.

**5.6** **Gwasanaeth Buddsoddi a Rheolaeth Trysorlys.** Rwyf yn fodlon fod y gwasanaeth hwn wedi perfformio'n gyson dda, gan warchod buddsoddiadau'r Cyngor a'r Gronfa Bensiwn a sicrhau ymdriniaeth gywir a phriodol o lif arian ayb. Nid oes gennyf bryder o gwbl am y gwasanaeth hwn.

Er hynny, credaf gellir ehangu'r wybodaeth perfformiad sy'n cael ei gyflwyno i'r Cyfarfodydd Herio a Chefnogi Perfformiad fel eu bod yn ymdebygu fwy gyda'r wybodaeth gynhwysfawr sydd bellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Pwyllgor Pensiynau. Mae'r Rheolwr a'r Pennaeth adran wedi cytuno trafod er mwyn gweld pa wybodaeth ychwanegol gellir ei gyflwyno i'r cyfarfod Herio a Chefnogi Perfformiad nesaf, ym mis Chwefror.

**5.7** **Gwasanaeth Yswiriant a Rheoli Risg.** Nodais yn fy adroddiad perfformiad diwethaf mai un rhwystr sy'n atal y Gwasanaeth Yswiriant a Rheoli Risg rhag gallu gweithredu'n effeithiol yw gorfod disgwyl rhy hir am nifer gymharol uchel o adroddiadau gan rannau eraill o'r Cyngor. Adroddais fod hyn yn creu ychydig o bryder a byddai'r Adran yn gweithredu i geisio gwella'r sefyllfa.

Rwyf yn falch o adrodd fod y sefyllfa'n gwella, ac fod y gwasanaeth yn cadarnhau bod yr adroddiadau mae'r gwasanaeth wedi eu derbyn gan adrannau eraill wedi bod yn dderbyniol yn y cyfnod diweddaraf.

**5.8** **Gwasanaeth Incwm.** Nodais yn fy adroddiad perfformiad diwethaf fy mod yn awyddus iawn i barhau i roi sylw i gynnydd yr achosion rydym yn eu cyfeirio at yr Gwasanaeth Cyfreithiol, er mwyn sicrhau bod cydweithio effeithiol rhwng y ddwy uned.

Cynhaliwyd cyfarfod rhwng y ddwy uned yn ystod mis Tachwedd er mwyn trafod camau i fynd i'r afael â'r hen ddyledion. Roeddwn yn bresennol yn y cyfarfod a gallaf adrodd ei fod wedi mynd yn dda a'i fod yn gyfarfod positif iawn. Yn sgil y cyfarfod deuthum i'r casgliad byddai adolygiad Ffordd Gwynedd o'r Gwasanaeth Incwm yn amserol ac roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Pennaeth Adran yn gefnogol i hyn. Cychwynnodd yr adolygiad yma'n syth ac mae casgliadau adeiladol eisoes wedi dod i'r amlwg. Byddaf yn parhau i adrodd ar gynnydd ar y gwaith mewn adroddiadau perfformiad dilynol.

**5.9** **Gwasanaeth Budd-daliadau.** Hoffwn nodi fod y gwasanaeth yma yn perfformio'n gyson dda ac rwyf yn awyddus i ddiolch i'r Rheolwr a holl staff y gwasanaeth am sicrhau fod pobl mwyaf bregus Gwynedd yn derbyn y cymorth ariannol maent yn gymwys iddo. Mae'r wybodaeth sydd ar gael yn dangos bod gwelliant bob tro mae'r gwasanaeth yma yn rhoi sylw i'w systemau a'u prosesau. Mae sefydlogrwydd staffio wedi bod yn gymorth mawr i'r gwasanaeth wrth iddo allu arddangos gwelliant parhaus.

**5.10 Gwasanaeth Cyflogau.** Mae'n dda gallu adrodd fod y Gwasanaeth Cyflogau wedi ymateb yn amserol i'r cytundeb tâl ar gyfer 2023/24 ac wedi sicrhau fod y cynnydd ac ôl-dal wedi cael ei dalu i staff yn ystod mis Tachwedd. Gwelwyd ychydig o gynnydd yn nifer y camgymeriadau a gofnodwyd y cyfnod hwn – nodwyd bod 18 achos oedd yn ymwneud gyda'r ôl-daliadau. Cafodd unrhyw drafferthion eu datrys yn y modd briodol.

Nodais yn yr adroddiad diwethaf fod gen i beth pryder ar fethiant rhai o wasanaethau'r Cyngor i hysbysu'r Gwasanaeth Cyflogau'n amserol o unrhyw newid mewn sefyllfa unigolion, er mwyn gallu gweithredu ar amser. Mae'r gwaith o wella'r trefniadau gydag adrannau eraill yn parhau.

Un mater a amlygwyd yn ystod y cyfarfod yw fod y gwasanaeth yn wynebu problemau staffio llem yn ystod Ionawr a Chwefror 2024 yn sgil absenoldebau am amryw o resymau gwahanol, gan gynnwys salwch tymor hir, mamolaeth, swyddi gwag a secondiadau. Bydd y Rheolwr yn trafod camau lliniaru gyda'r Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Cynorthwyol perthnasol er mwyn llunio rhaglen i ymdrin â'r sefyllfa.

**5.11 Gwasanaeth Trethi.** Yn ystod y cyfarfod Herio a Chefnogi Perfformiad rhoddwyd cyflwyniad gan y Rheolwr Trethi ar y gwaith sylweddol sydd wedi cael ei gyflawni wrth gynnal adolygiad Ffordd Gwynedd yn y gwasanaeth. Mae llawer iawn o waith wedi ei wneud yn ystod yr adolygiad yma a credaf fod gwelliannau clir bellach yn dod i'r amlwg yn sgil ymrwymiad y Rheolwr a'r tîm cyfan i'r gwaith yma.

Mae cyfraddau casglu Treth Cyngor wedi aros yn gymharol gyson gyda blynyddoedd diweddar (ar 73.1% erbyn diwedd Tachwedd), ond mae cyfradd gasglu ardrethi annomestig yn sylweddol is nag oedd yn yr un cyfnod llynedd. Erbyn diwedd Tachwedd 2023 roedd casgliad o fewn y flwyddyn yn 62.43% o'i gymharu â 68.45% erbyn diwedd Tachwedd 2022.

Yn ogystal ag effaith cynnydd costau byw a'r hinsawdd economaidd, mae ôl-groniad gwaith difrifol gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio, yn bennaf oherwydd prinder staff, yn cael effaith arwyddocaol ar allu'r Cyngor i gasglu Ardrethi Annomestig. Mae hyn oherwydd yr amser mae'r Asiantaeth yn ei gymryd i ymdrin ag apeliadau rhestr brisio.

**5.12 Gwasanaeth Cyllid a Chyfrifeg/Taliadau.** Rwyf yn fodlon iawn gyda'r gwaith mae'r Gwasanaeth Cyllid a Chyfrifeg yn ei gyflawni wrth gwblhau datganiadau statudol, ond rwyf wedi gofyn i'r gwasanaeth ystyried ffyrdd o dderbyn gwybodaeth bodlonrwydd cwsmer am y gefnogaeth a roddir i adrannau eraill y Cyngor.

## 6. ARBEDION ADRANNOL

6.1 **Cynlluniau Arbedion Adrannol Hanesyddol 2015/16 – 2023/24.** Mae'r adran wedi cyflawni ei holl gynlluniau arbed ar gyfer y cyfnod 2015/16 hyd 2022/23. Mae un cynllun arbed yn parhau o fewn rhaglen 2022/23, sef *Denu incwm ychwanegol drwy Asiantaeth Casglu Mewnol*. Nid wyf yn rhagweld erbyn hyn bydd y cynllun am wireddu'r targed arbedion o £25k felly mae'r Adran yn parhau i edrych am gynllun amgen.

6.2 **Cynlluniau Arbedion Adrannol Newydd 2023/24.** Cyfanswm Arbedion 2023/24 ar gyfer y Adran Gyllid yw **£294,060** (7 cynllun). O'r rhain, mae cynlluniau gwerth **£19,820** (2 gynllun) eisoes wedi eu gwireddu ac mae 3 cynllun arall â chyfanswm gwerth **£138,670** ar drac i gyflawni'n amserol. Fodd bynnag, mae cynlluniau gwerth **£135,570** (2 gynllun) yn llithro, gyda rhai risgiau i gyflawni'r arbedion. Y ddau gynllun lle mae risg cyflawni arbedion yw'r cynllun *Cynyddu targedau incwm Adrannol i fod yn gymesur â'r gwaith*, sydd â gwerth £64k, a bu oediad ar y cynllun *Ail strwythuro y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth* gwerth £71.5k ond mae hwn yn symud yn ei flaen.

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma, ac yn cadarnhau'r cynnwys.

**PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2023-2028 (Blaenoriaethau Gwella)**

Mae'r tabl isod yn rhoi diweddariad ar gynnydd dau brosiect blaenoriaeth yr Adran sydd wedi cael eu hadnabod yng Nghynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 dan adran Gwynedd Effeithlon - Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n dda ac yn effeithiol

| Prosiect | Trosolwg | Beth ydym am ei gyflawni yn ystod y flwyddyn GYNTAF 2023-24 (cerrig milltir): | Diweddariad diwedd Tachwedd 2023 |
|---|---|---|---|
| **Rheoli effaith toriadau cyllidol cenedlaethol** | Mae'r Cyngor eisoes wedi torri ei gyllidebau er mwyn arbed dros £34m ers 2015/16, ond yn sgil y sefyllfa economaidd bresennol, nid yw'r arian bydd y Cyngor yn ei dderbyn gan y Llywodraeth yn ddigonol i ymdopi â chwyddiant a phwysau gwario newydd. Rydym yn wynebu bwlch ariannol o dros £12 miliwn dros y ddwy flynedd nesaf.<br><br>Byddwn yn ymdrechu i wneud popeth y gallwn i leihau'r effaith ar y | Monitro fod yr arbedion gwerth £5.2m ar gyfer 2023/24, a gafodd eu cymeradwyo gan y Cyngor Llawn 02/03/23, yn cael eu blaenoriaethu gan yr Adrannau i'w gwireddu yn ystod y flwyddyn ariannol Atodiad 3 - Arbedion.docx (llyw.cymru)<br><br>Monitro fod yr Adrannau yn blaenoriaethu gwireddu arbedion sydd wedi llithro o flynyddoedd ariannol blaenorol.<br><br>Y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr a'r Pennaeth Cyllid i gyfarfod yn chwarterol i adolygu statws gwireddu holl arbedion y Cyngor.<br><br>Adrodd i Gabinet ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn Hydref 2023 ac yn Ionawr 2024 ar statws gwireddu holl gynlluniau arbedion y Cyngor.<br><br>Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, adolygu cynlluniau hanesyddol sydd wedi llithro er mwyn cynnal asesiad gwrthrychol o pa mor | Mae adolygiad ffurfiol o'r sefyllfa ar ddiwedd Awst 2023 wedi ei gwblhau ac wedi cael ei herio gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 12 Hydref a'i gymeradwyo gan y Cabinet ar 7 Tachwedd.<br><br>Bydd adolygiad pellach (diwedd mis Tachwedd) yn mynd gerbron y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 18 Ionawr a'r Cabinet ar 23 Ionawr.<br><br>Ar 12 Hydref, mae Cabinet wedi cydnabod fod y sefyllfa bellach wedi newid cymaint fel na ellir cyflawni cynlluniau arbedion hanesyddol gwerth £2,056,430. Defnyddiwyd y ddarpariaeth arbedion o £1,956,430 i ariannu dileu'r cynlluniau arbedion hyn, ynghyd â defnyddio £100,000 o bremiwm treth cyngor ar gyfer y cynllun arbedion yn ymwneud â'r maes Digartrefedd.<br><br>Mae'r cyfarfodydd canlynol wedi cael eu rhaglennu gyda'r Prif Weithredwr:<br>• Grŵp Arbedion/Toriadau - Gwedd 2, 22 Mehefin 2023<br>• Tracio Cynnydd Arbedion, 13 Gorffennaf 2023<br>• Grwp Arbedion/Toriadau - Gwedd 2, 13 Gorffennaf 2023<br>• Arbedion, 4 Medi 2023<br>• Tracio Cynnydd Arbedion & Arbedion - Ail Wedd, 21 Medi 2023<br>• Tracio Cynnydd Arbedion, 19 Rhagfyr 2023<br><br>Mae gweithdai blaenoriaethu wedi eu cynnal gyda holl aelodau'r Cyngor sydd ddim ar y Cabinet ar 18 – 20 Hydref 2023. |

| Prosiect | Trosolwg | Beth ydym am ei gyflawni yn ystod y flwyddyn GYNTAF 2023-24 (cerrig milltir): | Diweddariad diwedd Tachwedd 2023 |
|---|---|---|---|
| | gwasanaethau a ddarperir i bobl Gwynedd gan dderbyn na fydd modd gosod cyllideb hafal heb gyfres faith o arbedion/toriadau a chynyddu'r dreth Cyngor yn uwch nag a fyddem yn ei ddymuno. | realistig yw'r disgwyliad iddynt gael eu gwireddu.<br><br>Cynnal adolygiad gwedd 2 o weithredu arbedion ar gyfer eu gweithredu yng nghyllideb 2024/25 ymlaen. | Bu i'r Cyfrifwyr asesu yr arbedion sydd yn cael eu cynnig ar gyfer 2024/25 i gadarnhau os oedd yr arbedion ar gael a pha effaith fuasai eu gweithredu yn eu cael ar gyllidebau yr adrannau.<br><br>Gan fod setliad Llywodraeth Leol wedi cael ei gyhoeddi mor hwyr (20 Rhagfyr 2023), ni fydd amser yn caniatáu i'r arbedion pellach gael eu gwireddu yn 2024/25 a felly mae'n debyg y bydd angen pontio hyd at 2025/26. |
| **Cynllun Digidol** | Mae disgwyliadau a thueddiadau pobl wedi newid yn sylweddol yn sgil y pandemig, ac mae hyn yn gyfle i weld os oes modd i ni wella profiad trigolion Gwynedd o wasanaethau rheng flaen a swyddfa gefn ymhellach drwy ddefnyddio technoleg ddigidol. | Bydd blwyddyn gyntaf y prosiect yn canolbwyntio ar ddatblygu strategaeth ddigidol newydd ar gyfer y Cyngor a phobol Gwynedd, gan amlinellu cynlluniau gwella, risgiau ac unrhyw oblygiadau ariannol, unai drwy fuddsoddiad neu arbedion.<br>Mae cylch llywodraethu bellach ar waith ac yn gyfrifol am ddatblygiad a gweithrediad y strategaeth ddigidol.<br><br>Ch1 a Ch2 2023/24 - paratoi Strategaeth Ddigidol newydd mewn cydweithrediad ag arweiniad Archwilio Cymru<br><br>Ch3 2023/24 - cyflwyno'r Strategaeth Ddigidol ar gyfer ei mabwysiadu gan y Cyngor | Er mai'r Adran Cyllid sy'n gyfrifol am wireddu'r prosiect yng Nghynllun y Cyngor, mae'r Bwrdd Trawsnewid Digidol yn cadw trosolwg ac yn cynnig her yn ogystal â chefnogaeth tu hwnt i'r trefniadau herio a chefnogi perfformiad arferol.<br><br>Mae cyfarfodydd y Bwrdd yn cael eu cadeirio gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol, gyda'r Pennaeth Cyllid Cynorthwyol – Technoleg Gwybodaeth yn gweithredu fel Rheolwr Prosiect. Mae pedwar is-grŵp wedi'u ffurfio i edrych ar feysydd penodol, gyda cynrychiolaeth o ystod o adrannau'r Cyngor a'r cadeiryddion yn ymuno fel rhan o'r Bwrdd:<br>• Technegol a Gwydnwch<br>• Cyswllt Cwsmer<br>• Data<br>• Gweinyddiaeth a Systemau Busnes<br><br>Ymhellach, mae'r Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Monitro yn aelodau o'r Bwrdd, yn ogystal â'r Pennaeth Addysg (sydd â swyddogaeth benodol i sicrhau cydlyniad rhwng y Strategaeth Ddigidol ar gyfer Ysgolion a'r hyn sydd ar y gweill ar lefel corfforaethol) a minnau'n cynrychioli Aelodau Etholedig. |

| Prosiect | Trosolwg | Beth ydym am ei gyflawni yn ystod y flwyddyn GYNTAF 2023-24 (cerrig milltir): | Diweddariad diwedd Tachwedd 2023 |
|---|---|---|---|
| | | Ch3 a Ch4 2023/24 a Ch1 – Ch4 2024/25 - gweithredu'r prosiectau sydd wedi ei rhaglennu ar gyfer dwy flynedd cyntaf y strategaeth. | Cyflwynwyd y Cynllun drafft i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 14 Medi 2023; a cafodd y Cynllun terfynol ei fabwysiadu gan y Cabinet ar 7 Tachwedd 2023.<br><br>Mae'r cynlluniau unigol bellach wedi ei cyflwyno i'r drefn bidiau corfforaeth a bydd cadarnhad o'r gefnogaeth ariannol sydd ar gael ynghyd a chanfyddiadau ymarferion blaenoriaethu gan y Penaethiaid, Penaethiaid Cynorthwyol a Rheolwyr yn cael eu defnyddio i greu rhaglen waith.<br><br>Y cam nesaf fydd cyhoeddi'r blaenoriaethau oddi fewn y rhaglen waith a bydd hwn fydd sail adroddiad cynnydd ar gyfer ein cyfarfod herio a chefnogi perfformiad adrannol nesaf, gyda cynnydd yn erbyn y rhaglen waith i'w adrodd i'r dyfodol. |

# BLAENRAGLEN WAITH

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Dyddiad trafodaeth yn y Cabinet** | **Eitemau i'w trafod** | **Aelod Cabinet** |
|---|---|---|
| **Chwarter 4 2023/24**<br>**1 Ionawr – 31 Mawrth** | | |
| **20 Chwefror 2024** | Ail Fodelu Trefniadau Casglu Gwastraff | Cyng. Dafydd Meurig |
| | Toiledau Cyhoeddus | Cyng. Berwyn Parry Jones |
| | Cymeradwyo Cynllun Cydweithio | Cyng. Berwyn Parry Jones |
| | Adolygiad Blynyddol Cynllun y Cyngor | Cyng. Dyfrig Siencyn |
| | Cynllun Arbedion 2024/25 | Cyng. Ioan C Thomas |
| | Cyllideb 2024/25 | Cyng. Ioan C Thomas |
| | Ffioedd Preswyl a Nyrsio | Cyng. Dilwyn Morgan |
| | Adroddiad Perfformiad yr Adran Economi a Chymuned | Cyng. Dyfrig Siencyn a Cyng. Nia Jeffreys |
| | Adroddiad Perfformiad yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol | Cyng. Menna Trenholme |
| | Adroddiad Perfformiad yr Adran Tai ac Eiddo | Cyng. Craig ab Iago |
| **12 Mawrth 2023** | Strategaeth Llifogydd | Cyng. Berwyn Parry Jones |
| | Bidiau Un-Tro 2024-25 | Cyng. Dyfrig Siencyn |
| **Chwarter 1 2023/24**<br>**1 Ebrill – 30 Mehefin** | | |
| | Dim dyddiadau pwyllgor wedi ei pennu eto. | |